



Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy 2018-19

Jenny Williams

Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal

Cymdeithasol ac Addysg

social.services2@conwy.gov.uk



**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn ar gyfer cydweithio
â'n cymunedau i alluogi pawb i gael y gorau allan
o fywyd**

**Conwy County, the right environment for working
together with our communities to enable everyone
to get the best out of life**

Cynnwys

Rhagarweiniad	3
Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr	4
Sut mae pobl yn dylanwadu ar ein gwasanaethau?	5
Hyrwyddo a hybu llesiant y bobl sy'n cael cymorth gennym	6
Safon Ansawdd 1 - Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y dymuna pobl eu cyflawni	6
Safon Ansawdd 2 – Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol	10
Safon Ansawdd 3 – Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed	14
Safon Ansawdd 4 – Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas	18
Safon Ansawdd 5 – Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol diogel	24
Safon Ansawdd 6 – Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol, a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion	29
Sut ydym ni'n cyflawni'r hyn a wnawn ni	32
Fframwaith Mesur Perfformiad	37
Edrych ymlaen at 2019-20 a thu hwnt	38
Rhagor o wybodaeth a dogfennau pwysig	40

Rhagarweiniad

Diben yr adroddiad blynyddol hwn yw nodi taith yr awdurdod lleol tuag at welliant wrth ddarparu gwasanaethau i breswylwyr Conwy. Mae'r adroddiad yn ceisio dangos sut rydym wedi hyrwyddo lles a rhoi cyfrif am ddarparu safonau llesiant. Mae'n rhoi gwybod am feysydd lle mae datblygiadau newydd, yn hytrach na phob agwedd ar ein gwaith, ac yn arfarnu ein perfformiad wrth gyflawni dyletswyddau Gofal Cymdeithasol. Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyhoeddi adroddiad blynyddol.

Mae blaenoriaethau ein gwasanaeth yn cyd-fynd â'r chwe Safon Ansawdd Genedlaethol ar gyfer canlyniadau llesiant. Rydym yn dangos sut rydym wedi cyflawni yn y chwech o feysydd hyn, trwy roi gwybodaeth am ddatblygiadau, astudiaethau achos, canlyniadau arolygon ac ymatebion, a mesuryddion perfformiad. Y chwe safon yw:

- 1) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol y dymuna pobl eu cyflawni.
- 2) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol.
- 3) Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.
- 4) Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas.
- 5) Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau iach yn ddomestig, teuluol a phersonol.
- 6) Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell llesiant economaidd, cael bywyd cymdeithasol, a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Lluniwyd yr adroddiad ar gyfer y cyhoedd, ond bydd hefyd yn rhoi cipolwg ar ein taith tuag at welliant i amrywiaeth helaeth o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys Cynghorwyr, ein partneriaid, y cyrff sy'n ein rheoleiddio a Llywodraeth Cymru. Rydym yn meithrin cyswllt yn rheolaidd â'n budd-ddeiliaid ac yn gwerthfawrogi ymatebion gan y bobl rydym yn ymwneud â hwy, ac mae enghreifftiau o'r ymatebion hyn i'w gweld gydol yr adroddiad. Mae dyluniad yr adroddiad yn seiliedig ar arddull yr oedd ein Cyngor leuenctid wedi'i ddewis.



Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr

Croeso i Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2018-19. Mae'n braf gweld ffocws cryf ar ddechrau'r adroddiad ar y gweithgarwch sylweddol i feithrin cyswllt â phobl gydol y flwyddyn trwy arolygon, siarad gyda phobl a chefnogi digwyddiadau o bwys. Rydym wedi llunio adroddiad ymgysylltu y byddwn yn ei rannu'n eang er mwyn dangos ein hymrwymiad go iawn i barchu barn a safbwyntiau ein cwsmeriaid.

Mae'r adroddiad eleni yn datgan ein hymrwymiad i iechyd a lles emosiynol ein preswylwyr wrth i ni symud at fodel sy'n cydnabod 'help cynnar ar yr amser sydd ei angen arnom' fel cysyniad allweddol sy'n bwysig i bobl. Mae cadw'n brysur, cael mynediad at gyfleoedd chwarae a datblygu grwpiau targed i hyrwyddo gweithgarwch corfforol i'r rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau i gyd yn allweddol yn hyn o beth. Rydym yn gweithio'n galed gyda'n partneriaid i hybu gwytnwch emosiynol ac iechyd meddwl 'da' ar draws nifer o feysydd gwasanaeth mewn gwahanol ffyrdd, ac mae llawer o enghreifftiau da i'w gweld yn yr ail ran o'r adroddiad.

Mae diogelu yn dal i fod yn ymrwymiad corfforaethol ac rydym yn falch ein bod wedi llwyddo i ennill Gwobr Gofal Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn am ein hymgyrch i atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, wrth i ni gydweithio â'n partneriaid allweddol a phobl ifanc sydd wedi byw trwy'r profiad.

Mae gweithio i hybu annibyniaeth a gwytnwch yn un o'n haddewidion ac mae'r adroddiad yn cyfeirio at amryw o weithgareddau sy'n cefnogi hyn, gan gynnwys ymyriadau i gefnogi teuluoedd, datblygu a hyfforddi gofawyr maeth, a chynlluniau i hybu sgiliau pobl i gael gwaith.

Fe soniom am ein darpariaeth o ran ymyrraeth gynnar yn adroddiad y llynedd ac rydym yn falch o weld bod y datblygiadau wedi dwyn ffrwyth, gan gynnwys ein mosaig cefnogaeth, canolfannau teuluoedd a thimau cefnogi teuluoedd wedi'u sefydlu mewn cymunedau.

Ni allaf sôn am y llwyddiannau hyn heb dalu teyrnged i'r tîm ardderchog sy'n ein galluogi i gyflawni ein dyheadau a rhagori arnynt, gan gynnwys y gweithlu cyfan, ein tîm ansawdd a monitro, y tîm comisiynu a'n tîm cymorth busnes. Mae yno heriau inni hefyd wrth i ni ddal i wynebu prinder adnoddau sy'n golygu bod yn rhaid i ni ddarparu mwy gyda llai flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Sut ydym ni'n gwybod a ydym ar y trywydd cywir? Mae'r atodlen berfformiad ar ddiwedd yr adroddiad yn dangos patrwm sefydlog a chyson, ac mae hynny'n dod i'r amlwg pan fydd cyrff rheoleiddio'n ymweld â ni gydol y flwyddyn i gynnal amryw arolygon.

I gloi, hoffwn ddiolch i'r tîm a gefnogodd y gwaith o greu'r adroddiad hwn a hefyd am y gefnogaeth ddemocrataidd yr ydym yn dal i'w derbyn wrth i ni geisio darparu gofal cymdeithasol o safon dda i drigolion Conwy.



Jenny

Jenny Williams

Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Sut mae pobl yn dylanwadu ar ein gwasanaethau?

Mae canfod beth sy'n bwysig i bobl yng Nghonwy'n rhan allweddol o ddatblygu ein gwasanaethau, ac felly gofynnwn am ymatebion gan bobl yr ydym yn ymwneud â hwy, ac yn defnyddio'r wybodaeth a gawn ni yn sail ar gyfer gwella'r gwasanaethau'r ydym yn eu darparu.

Gydol yr adroddiad hwn fe welwch chi ystadegau ac ymatebion a gafwyd wrth feithrin cyswllt â phobl, yn enwedig o'r **Arolwg Dinasyddion** a gynhaliwn bob blwyddyn ar ran Llywodraeth Cymru. Caiff ymatebion o'r arolwg eu cyflwyno gydol yr adroddiad, o dan y safon ansawdd perthnasol, er mwyn dangos sut rydym yn llwyddo wrth ddarparu gofal a chymorth yng Nghonwy. Byddwn yn mynd ati i wella pethau pan dderbynnir ymateb negyddol, neu pan mae pobl yn awgrymu newidiadau.

Pwy sy'n cymryd rhan yn yr Arolwg Dinasyddion?

Yn 2018 fe anfonom 1,508 o holiaduron at yr holl Ofalwyr, plant a phobl ifanc a detholiad o oedolion oedd yn derbyn gofal a chymorth gennym. Anfonwyd copïau o'r holiadur mewn arddull hawdd ei ddarllen at rai pobl ag anableddau dysgu, ac felly rydym yn ymdrin yn wahanol â'r ymatebion i'r rheiny.

Faint o bobl a ymatebodd?

Dyma grynodedb o'r cyfraddau ymateb:

Pwy?	Fe anfonom ni	Dychwelwyd	% ymateb
Oedolion	723	269	37%
Gofalwyr	232	120	52%
Plant a Phobl Ifanc	553	85	15%

O dan y Cod Ymarfer ar gyfer Mesur Perfformiad Gofal Cymdeithasol, mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gasglu data ar ffurf Dangosyddion Perfformiad. Rydym wedi cynnwys y rhain yn yr adroddiad er mwyn dangos yn ystadegol mor llwyddiannus yr ydym wrth ddarparu gofal a chymorth yng Nghonwy. Mae Llywodraeth Cymru'n monitro'r dangosyddion perfformiad hyn yn flynyddol.



Hyrwyddo a hybu llesiant y bobl sy'n cael cymorth gennym

Safon Ansawdd 1 - Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y dymuna pobl eu cyflawni

Beth a ddysgom ni o'r Arolwg Dinasyddion?

Fe holon ni bobl a oeddent wedi derbyn y **wybodaeth a'r cyngor iawn** pan roedd angen hynny arnynt.

Roedd 73% o'r oedolion a gwblhaodd y fersiwn safonol o'r holiadur a 72% o'r rhai a gwblhaodd y fersiwn hawdd ei ddarllen yn cytuno eu bod wedi cael y wybodaeth a'r cyngor iawn, a chytunodd 23% arall fod hynny wedi digwydd weithiau. Fe sylwom fod rhai ymatebwyr wedi cyfeirio at gyswllt a gawsant ag asiantaethau a sefydliadau heblaw am Ofal Cymdeithasol, ac felly mae'n anodd dehongli'r ymatebion i ddarpariaeth Gofal Cymdeithasol Conwy yn benodol.

Gall cyfathrebu fod yn wael pan mae gofalwyr yn hwyr.

Hapus fy mod yn medru cael yr wybodaeth a'r cyngor iawn pan oeddwn ei angen.

Rhaid dweud, os gewch chi'r person iawn maen nhw'n dda.

Roedd 68% o'r Gofalwyr a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno eu bod wedi derbyn gwybodaeth a chynghor pan roedd angen hynny arnynt, a 25% wedi cael gwybodaeth a chynghor weithiau. Mae'r sylwadau ychwanegol yn dangos cymysgedd o rwystredigaeth a gwerthfawrogiad ynglŷn â'r cymorth a dderbyniwyd.

Nid yw bron dim o'r gwasanaethau'n ei gwneud yn amlwg sut i gysylltu â nhw, ac fe fyddai rhifau ffôn wedi bod yn ddefnyddiol.

Rwy'n teimlo fod yno dipyn o beryglon, a'ch bod yn colli rheolaeth o ran eich dymuniadau.

Rydym yn cydnabod fod cyfathrebu'n rhywbeth y gallwn bob amser ei wella, ac mae ein timau'n gwneud eu gorau glas i roi manylion cyswllt uniongyrchol i bobl sy'n cael gofal a chymorth gennym. Mae gan ein timau brofiad helaeth o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a gweithio gyda phobl i ganfod beth sy'n bwysig iddynt a pha ganlyniadau y dymunant eu cyflawni. Ceir gwybodaeth ddefnyddiol ar ein gwefan i bobl sy'n dymuno cysylltu â ni, p'un a ydym yn gwybod amdanynt neu beidio.

Fe holon ni a oedd pobl wedi cael eu **trin â pharch ac urddas** wrth dderbyn gofal a chymorth gennym. Roedd 95% o'r oedolion a gwblhaodd y fersiwn safonol o'r holiadur a 91% o'r rhai a gwblhaodd y fersiwn hawdd ei ddarllen yn cytuno.

Rhoddwyd cyngor mewn fford garedig bob amser.

Yn ddi-eithriad roedd y tîm yn barod eu cymwynas ac yn barchus. Rydyn ni'n eu gweld nhw fwy fel ffrindiau na swyddogion. Mae'n braf gwybod fod rhywun yn malio.

Ydw, rwy'n cael fy nhrin â pharth ac urddas yma bob amser. Nid felly'r oedd hi bob tro yn y cartref diwethaf neu'r ysbyty. Rwy'n falch o fod yma.

Roedd 94% o Ofalwyr yn cytuno y cawsant eu trin â pharch ac urddas, ac 84% o blant.

Fe holon ni bobl â chynlluniau gofal a chymorth a oeddent yn **gwybod pwy i gysylltu â nhw** yn y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol. Roedd 82% o'r oedolion a gwblhaodd y fersiwn safonol ac 85% o'r rhai a gwblhaodd y fersiwn hawdd ei ddarllen yn gwybod pwy i gysylltu â nhw, ond yn ôl rhai o'r sylwadau ychwanegol gallem wneud yn well o ran galluogi i ddefnyddwyr ein gwasanaethau i gysylltu â ni.

Mae'n annheg iawn eu bod nhw'n newid gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol mor aml, a byth yn dweud dim i ni.

Wedi cael digonedd o daflenni, ond byddai enwau a chyfeiriadau'n well.

Roedd 71% o Ofalwyr yn gwybod pwy i gysylltu â nhw yn y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol, a 19% arall yn gwybod weithiau. Ar sail y sylwadau ategol, cymysg oedd profiadau pobl.

Mae fy Swyddog Gofalwyr yn gefnogol dros ben.

Dim bob amser. Fe gefais amryw rifau ffôn ond oherwydd materion staffio a gwaith dydych chi bron byth yno. Dim bai arnoch chi, dim ond un o ffeithiau bywyd yn anffodus.

Roedd 70% o blant yn cytuno eu bod yn gwybod pwy i gysylltu â nhw, ond roeddent fel arfer yn gwneud hynny drwy eu rhieni, rhieni maeth neu'r ysgol.

Fe holon ni bobl a oeddent yn teimlo'n **rhan o unrhyw benderfyniadau** a wnaethpwyd am eu gofal a'u cymorth. Roedd 78% o'r oedolion a gwblhaodd y fersiwn safonol o'r holiadur a 73% o'r rhai a gwblhaodd y fersiwn hawdd ei ddarllen yn cytuno y buont yn rhan o'r penderfyniadau. Roedd 77% o Ofalwyr yn cytuno hefyd, ond yn ôl rhai o'r sylwadau ategol mae pobl yn rhwystredig ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni o fewn eu pecynnau gofal a chymorth.

Mae'n ymddangos imi fod pobl â dementia'n ei chael yn haws derbyn gofal gan rywun cyfarwydd – ond mae'r wynebau'n newid o hyd.

Pam na fedrwn gael seibiant ar y penwythnos o bryd i'w gilydd?

Mae ein tîm o Weithwyr Cymorth Cymunedol yn arbennig mewn gweithio â phobl a dementia er mwyn sicrhau y cânt ofal a chymorth o'r radd flaenaf. Mae panel yn cwrdd yn rheolaidd i ystyried ceisiadau am ofal seibiant, ac mae'r penderfyniadau'n seiliedig ar y polisi seibiant rhanbarthol, gan ystyried amgylchiadau pob unigolyn hefyd.

Roedd 69% o blant yn cytuno y gwrandawyd ar eu safbwyntiau, ac roedd y sylwadau ychwanegol yn gymysgedd o rai cadarnhaol a negyddol.

Nid yw gweithwyr cymdeithasol yn gwrando

Mae nhw'n gwrando os oes angen cymorth arnaf.

Gofynnwyd yn yr arolwg a oedd pobl **yn fodlon gyda'r gofal a chymorth** yr oeddent wedi'i dderbyn. Dywedodd 86% o'r oedolion a gwblhaodd y fersiwn safonol o'r holiadur eu bod yn fodlon, ac roedd 84% o'r rhai a gwblhaodd y fersiwn hawdd ei ddarllen yn cytuno.

Mae'r diolch i'r gofal a chymorth a gefais yma am fod fy ieuchyd meddwl wedi gwella cymaint.

Gan amlaf – ond angen gwybod pwy fydd yn fy nghefnogi – yn aml mae'n rhywun gwahanol bob dydd.

Dywedodd 73% o Ofalwyr eu bod **yn hapus gyda'r gofal a chymorth** a dderbyniont. Ymddengys bod Gofalwyr yn dibynnu ar amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer cyngor a chymorth, a gall ymyriadau priodol wedi'u targedu wneud byd o wahaniaeth o ran ansawdd eu bywydau.

Roedd beth a gynigiwyd mor gefnogol â phosib, ond roedd y terfyn amser yn creu pwysau.

Roedd y gweithwyr gofal a ddaeth i mewn yn rhy ifanc/dibrofiad i ddarparu'r 'cwmpeini' y'u penodwyd i ddarparu.

Dywedodd 76% o blant eu bod yn hapus gyda'r gofal a chymorth a roddwyd, ac ar sail y sylwadau ychwanegol mae'n amlwg ei bod yn bwysig iddynt fod yn ganolog i'r broses fel unigolion.

Fe ges i fy nhrin fel rhif ar restr, yn hytrach nag unigolyn.

Mae'r rhestr aros yn rhy hir, ac wedyn mae'r gwasanaeth ei hun yn gyfyng iawn, dim ond awr yr wythnos efallai.

Mae gweithio'n unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn golygu ein bod yn gosod yr unigolyn yn ganolog i'r drefn asesu, ac yn sicrhau y gallant fynegi eu safbwyntiau a'u dymuniadau ar bob cam wrth iddynt dderbyn gofal a chymorth. Fe wnawn ein gorau glas i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib gyda'r adnoddau sydd gennym, a chyfeirio pobl at sefydliadau neu wasanaethau eraill perthnasol a fedrai gynnig mwy o gymorth.

Ym mha ffyrdd eraill ydym ni'n cyflawni'r Safon Ansawdd hon?

Meithrin Cyswllt â Gwasanaethau i Bobl Hŷn

Monitro Ansawdd y Gwasanaethau Ailalluogi

Mae ein Tîm Pobl Hŷn yn arbenigo mewn gwasanaethau ailalluogi sy'n cefnogi pobl am gyfnodau byr i adennill eu hannibyniaeth. Wedi i'n gwaith ni ddod i ben byddwn yn gofyn am ymateb gan bawb sydd wedi cael cymorth, gan holi i ba raddau y cawsant eu cynnwys wrth bennu canlyniadau personol, i ba raddau y cyflawnwyd y canlyniadau hynny, a sut brofiad oedd gweithio gyda'r tîm yn gyffredinol. Dyma fraslun o'r ymateb a gafwyd ers mis Hydref 2018:

Roedd 98% o bobl a dderbyniodd wasanaeth ailalluogi'n cytuno eu bod wedi'u cynnwys yn y drefn o gytuno ar eu cymorth a'i gynllunio.

Teimlai 98% y bodlonwyd eu disgwyliadau o'r gwasanaeth.

Dywedodd 97% fod Gofal Cymdeithasol Conwy wedi pennu eu canlyniadau gyda nhw pan ddechreuodd y gwasanaeth.

Teimlai 96% eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau a bennwyd erbyn i'r cymorth ddod i ben.

Teimlai 67% y rhoddwyd ystyriaeth i'w dymuniadau diwylliannol/crefyddol yn ystod yr ymyrraeth, ond nid oedd hynny'n berthnasol i 32% o'r rhai hynny a dderbyniodd y gwasanaeth.

Teimlai 96% fod y cymorth a roddwyd yn hyblyg, er enghraifft, o ran amserau ymweld, hyd pob ymweliad ac yn y blaen.

Roedd 93% yn cytuno fod y cymorth a gawsant yn gyson, hynny yw, mai'r un aelod o staff a fu'n ymweld â hwy gydol y cyfnod ymyrryd.

Teimlai 97% fod y cymorth a gawsant wedi'u galluogi i wneud cymaint â phosib drostynt eu hunain.

Roedd 100% yn cytuno fod ein staff yn ddymunol, yn garedig ac yn gwrtais.



Fe wnaethon nhw'n fendigedig.

Cymorth gwych.

Caredig a gofalgwr dros ben.

Gweithio'n fwy effeithlon gyda'n partneriaid lechyd

Yn y flwyddyn aeth heibio rydym wedi adolygu'r drefn atgyfeirio ar gyfer cleifion sy'n trosglwyddo o Ysbyty Glan Clwyd i wasanaethau Gofal Cymdeithasol Conwy. Yn y gorffennol byddai pob atgyfeiriad o Ysbyty Glan Clwyd yn

mynd yn syth at Weithiwr Cymdeithasol, a gallai hynny beri ychydig o oedi i bobl. Wedi penderfynu bwrw golwg ar bob un o'r achosion hyn fe welom nad oedd angen Gweithiwr Cymdeithasol o gwbl ar lawer iawn o'r bobl dan sylw.

O ganlyniad i hyn, y Therapydd Galwedigaethol Iechyd yn Ysbyty Glan Clwyd sydd bellach yn cymryd yr awenau gyda chynlluniau pobl ar gyfer dod allan o'r ysbyty. Bydd y Therapydd Galwedigaethol yn gwneud asesiad ac yn nodi unrhyw anghenion, er enghraifft, o ran ailalluogi.

Mae'r broses newydd yn symlach, yn fwy effeithlon ac yn fwy prydlon i'r unigolyn. Caiff unigolion hefyd eu hasesu gyda'r nod o bennu canlyniadau y dymuna'r unigolyn eu cyflawni yn y pen draw.

Meithrin Cyswllt â Phlant sy'n Derbyn Gofal a Phobl Ifanc sy'n Gadael Gofal

Y Fforwm Lleisiau Cryf

Er mwyn sicrhau fod llais gan Blant a Phobl Ifanc sy'n derbyn gofal gennym, rydym wedi hwyluso dau fforwm ymgynghorol rheolaidd yng Nghonwy. Mae'r Fforwm Lleisiau Cryf yn agored i bob plentyn sy'n derbyn gofal rhwng 5 a 15 mlwydd oed. Caiff y Fforwm ei gefnogi a'i gydlyn gan Swyddog Cyfranogi Ieuenctid a Swyddogion Adolygu Annibynnol, a chynhelir y cyfarfodydd mewn clwb ieuenctid lleol yn rheolaidd. Nod y fforwm yw dysgu gan ein plant a phobl ifanc beth sy'n digwydd yn eu bywydau a gweld beth arall y gallwn ni, fel gweithwyr proffesiynol, ei ddysgu ganddynt.

Mae'r grŵp wedi trafod a lleisio barn ynglŷn â chreu proffil un tudalen ar gyfer pob gweithiwr – taflen wybodaeth 'Popeth Amdanaf I'. Roedd y plant yn rhan o benderfynu pa gwestiynau y dylid eu cynnwys, a'r wybodaeth y dymunant i'r Gweithwyr Cymdeithasol ei darparu.

Siapio Dyfodol

Siapio Dyfodol yw'r grŵp sy'n cynrychioli pobl ifanc rhwng 16 a 25 mlwydd oed sy'n derbyn gofal ac yn paratoui adael gofal. Mae'r grŵp yn gweithio ar bynciau a syniadau y mae'r bobl ifanc eu hunain yn eu cynnig. Dan sylw mae pethau fel cynlluniau gofal, adolygiadau, cyfweiliadau ymadael ac ymgynghoriadau allanol rheolaidd. Y nod yw rhoi llais i'r holl blant a phobl ifanc yng Nghonwy sy'n derbyn gwasanaeth Gofal Cymdeithasol, a mynegi eu hanghenion a'u safbwyntiau. Yn y flwyddyn aeth heibio bu'r grŵp yn gweithio'n galed wrth gymryd rhan mewn amrywiaeth o ymgynghoriadau a gweithdai. Dyma rai enghreifftiau:

- Ymgynghoriad gyda Gwasanaeth Ieuenctid Conwy;
- Sesiwn Deall dy Hawliau, Deall dy Fudd-daliadau;
- Cwrdd ag Arolygiaeth Gofal Cymru fis Medi 2018;
- Gweithdai ymgynghori gyda *Voices from Care*;
- Rhoi sylwadau i Gomisiynydd Plant Cymru ar yr Adroddiad Breuddwydion Cudd.

Beth Nesaf?

Yn y flwyddyn nesaf byddwn yn ystyried amrywiaeth o ffyrdd inni feithrin cyswllt â phlant a phobl ifanc. Bydd y gwaith yn cynnwys ystyried defnyddio cyfryngau cymdeithasol a gweithio'n agos â phobl ifanc sy'n gadael gofal er mwyn sicrhau y gallant gael gafael ar y wybodaeth iawn.

Cynadleddau Amddiffyn Plant

Pan fyddwn yn cynnal Cynadleddau Amddiffyn Plant rydym yn annog plant i fod yn bresennol os ydyn nhw'n ddigon hen, ac os ydynt yn dymuno bod yno. Cyn y cyfarfod bydd ein Cydlynnydd Amddiffyn Plant yn cynnig cwrdd â'r plentyn i glywed ei safbwyntiau a sicrhau y clywir llais y plentyn ac y caiff dymuniadau'r plentyn eu hystyried. Gobeithiwn gryfhau pethau ymhellach yn y maes hwn drwy greu swyddi Diogelu ac Adolygu Annibynnol a byddwn yn sôn am y cynnydd yn hyn o beth yn yr adroddiad y flwyddyn nesaf.

Diwrnod Dathlu i Blant sy'n Derbyn Gofal

Yn yr haf fe gynhaliom ddiwrnod o dathlu ac adloniant i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Fe fuom yn ymgynghori â hwy ymlaen llaw i gael gwybod pa fath o weithgareddau y dymunant eu gweld ar y diwrnod, gan sicrhau fod yno rywbeth at ddant plant a phobl ifanc o bob oed. Roedd y plant hyn yn arbennig o hoff o'r gweithgareddau 'Boom Box' a oedd yn gyfle iddynt arddangos eu sgiliau rapio! Hefyd fe gynhaliom sesiynau crefft er mwyn annog y plant i gyd i gymryd rhan, a mynd â'u creadigaethau adref. Yn y prynhawn cafodd y plant dystysgrifau i gydnabod beth oeddent wedi'i gyflawni.

Safon Ansawdd 2 – Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol

Plant a Phobl Ifanc

Cadw pobl ifanc yn egniol

Yn y flwyddyn aeth heibio fe lansiom lawer o fentrau a chynlluniau i geisio rhoi hwb i weithgarwch corfforol ymysg ein plant a'n pobl ifanc. Buom hefyd yn canolbwyntio ar geisio lleihau gordewdra a gwella lles emosiynol. Dyma rai enghreifftiau:

- Mae 'llythrennedd corfforol' yn cynnwys trefnu sesiynau stori egniol gan roi mwy o bwyslais ar y blynyddoedd cynnar o 0-5 mlwydd oed. Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar y syniad y bydd pobl yn cymryd rhan mewn mwy o weithgarwch corfforol os ydynt yn dechrau dysgu llythrennedd corfforol o'u geni.
- Cynhaliwyd cynllun Diwrnod Chwarae/Allan i Chwarae yn haf 2018 ar gaeau chwarae Rydal Penrhos. Cawsom gymorth gan 25 o wahanol sefydliadau a gwasanaethau ar y diwrnod. Fe gawsom ymateb aruthrol, gyda mwy na 1,000 o blant a 600 o oedolion wedi cofrestru ar gyfer y digwyddiad, a oedd yn cynnwys 32 o wahanol weithgareddau chwarae.
- Hon yw ail flwyddyn y cynllun Cinio dros y Gwyliau a weithredir ar y cyd â Phrosiect Cyfoethogi Gwyliau Ysgol Llywodraeth Cymru. Bu pedair ysgol yn y sir yn cymryd rhan yn y Prosiect Cyfoethogi dros wyliau'r haf, ac oddeutu 80 o blant.



Cyfiawnder Ieuenctid Conwy

Grŵp Pêl-droed

Ers 2017 mae grŵp pêl-droed y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn galluogi pobl ifanc yn ardal Bae Colwyn sy'n anodd eu cyrraedd ac wedi ymddieithrio i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol llesol. Mae'r prosiect wedi targedu grwpiau o bobl ifanc yn yr ardal sydd wedi achosi trafferthion gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu sydd â photensial i droseddu. Ar y dechrau nid oedd llawer o bobl ifanc yn y grŵp. Wrth i'r grŵp ennill ei blwyf yn y flwyddyn aeth heibio, bu'r cyfranogwyr rheolaidd yn gwahodd eu ffrindiau i ddod am gêm, ac atgyfeiriwyd mwy o bobl ifanc newydd drwy'r gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Bellach mae tua ugain o bobl ifanc rhwng 12 a 18 mlwydd oed yn dod i bob sesiwn. Mae asiantaethau eraill wedi dechrau atgyfeirio pobl ifanc i'r grŵp, ac mae ambell i riant a gofalwr wedi cymryd rhan hefyd!

Mae'r rhai sy'n dod i'r sesiynau pêl-droed yn rheolaidd wedi cael cerdyn Ffit Conwy sy'n eu galluogi i fynd i'r gampfa a'r pwll nofio a chymryd rhan mewn dosbarthiadau ffitrwydd. Rhannwyd ugain o gardiau hyd yn hyn ac mae'n amlwg fod hyn wedi rhoi hwb i iechyd y bobl ifanc, eu ffitrwydd a'u hyder. Gostyngodd ymddygiad gwrthgymdeithasol 30% ymhen chwe mis wedi dechrau'r prosiect, a chredir fod y sesiynau pêl-droed wedi cyfrannu at hynny.



Beth nesaf?

Rydym wrthi'n dechrau prosiect tebyg yn ardal Llandudno gyda TRAC, Addysg a Gofal Cymdeithasol yn gweithio mewn partneriaeth yn Ysgol John Bright, lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc dan sylw'n mynd. Prosiect pedair wythnos fydd hwn i gychwyn, lle byddwn yn meithrin cyswllt â phobl ifanc a darparu sesiynau wyneb yn wyneb er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a lleihau'r potensial o droseddu. Byddwn hefyd yn cynnal sesiynau pêl-droed i ennyn eu diddordeb mewn chwaraeon a'u tywys ymaith o droseddu.

Grŵp Chwaraeon a Gweithgareddau i Ferched

Rydym ar hyn o bryd yn darparu grŵp wythnosol i ferched sy'n cynnig chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol. Yn aml nid yw'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y grŵp yn fodlon gweithio gyda gwasanaethau a darpariaethau prif ffrwd, fel clybiau ieuenctid a chwaraeon, ac mae eu hymddygiad yn medru eu rhwystro rhag cael mynediad at

gyfleoedd addysg a hyfforddiant. Ein nod yw meithrin cyswllt â'r bobl ifanc hyn drwy gyfrwng chwaraeon, a bydd hynny yn ei dro yn datblygu ymddiriedaeth a phrofiadau cadarnhaol yn y grŵp. I ddechrau bu'n heriol ar adegau i ennyn diddordeb y bobl ifanc hyn, a hwythau wedi ymddieithrio ers tro byd. Drwy weithio gyda chriw bach o ferched rydym wedi medru newid meddyliau, ac mae'r niferoedd yn mynd o nerth i nerth. Mae staff y gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid yn medru rhoi cychwyn ar fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a lleihau'r potensial o droseddau. Gall pobl ifanc gryfhau eu sgiliau, gwella eu sgiliau cyfathrebu a dysgu sut i ddatrys problemau a chadw rheolaeth arnynt eu hunain. Hyrwyddir iechyd a lles corfforol drwy ymarfer corff a gweithgarwch egnïol.

Cefnogi Pobl Ifanc ag Anableddau

Astudiaeth Achos

Mae 'K' yn unigolyn ifanc ag anawsterau dysgu sydd wedi cael cymorth gan ein Tîm Cefnogaeth Gymunedol ar gyfer Anableddau, ac wedyn ein Tîm Cyfranogi. Ar hyn o bryd mae hi'n astudio yn yr adran sgiliau byw'n annibynnol yng Ngholeg Llandrillo. Mae'r adran hon yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ag anableddau dysgu ysgafn neu ddifrifol, ac sydd hefyd yn cael trafferthion cymdeithasol ac emosiynol. Etholwyd 'K' i Senedd Ieuencid Cymru i gynrychioli pobl ag anableddau, ac mae hynny'n rhywbeth arbennig i'w gyflawni. Safodd yr etholiad ar sail manifestio eang a oedd yn hyrwyddo pethau sy'n bwysig iddi hi fel unigolyn ac i bobl ifanc eraill ag anableddau yng Nghymru, fel mwy o weithgareddau i bobl ifanc ag anableddau a gwella mynediad i gadeiriau olwyn. Yn ddiweddar bu 'K' yn destun erthygl papur newydd yn sôn am ei hethol i'r Senedd Ieuencid.

Cefnogi Pobl ag Afiechyd Meddwl

Dysgu er Adferiad a Lles

Yn 2017-18 sefydlom y rhaglen Dysgu er Adferiad a Lles, i weithio gyda chyfranogwyr dros ddeunaw ag afiechyd meddwl fel eu bod yn medru:

- Magu gobaith a'r gallu i gyflawni targedau a dyheadau personol;
- Ailafael â rheolaeth dros eu symptomau a'u bywydau;
- Datblygu rolau a pherthnasau gwerth chweil;
- Dod o hyd i ystyr a phwrpas;
- Cael cyfle i wneud y pethau pwysig er mwyn creu bywyd y tu hwnt i'r salwch.

Lluniwyd taflen wybodaeth i hyrwyddo'r cyrsiau a ddarperir drwy'r rhaglen, a diwygiwyd honno bob tri mis ar sail cyfraniadau o'r trydydd sector ac asiantaethau perthnasol eraill. Cafwyd ambell i dro trwstan ar hyd y ffordd wrth ddod o hyd i weithgareddau a chynlluniau ac arian ar gyfer y daflen wybodaeth, ond goresgynwyd y rheiny drwy gydweithio.

Beth nesaf?

- Byddwn yn ystyried ffyrdd o ymgorffori'r rhaglen mewn gwaith arferol fel bod mwy o bobl yn dod i wybod amdani a'i bod yn cyrraedd rhannau o'r sir sy'n anos eu cyrraedd.
- Bwriadwn gydgyhyrchu'r rhaglen gyda defnyddwyr y gwasanaeth fel ei fod yn bodloni anghenion pobl a'i fod yn cael ei arfarnu'n effeithiol.
- Byddwn yn ystyried dulliau mwy cynaliadwy o ariannu gwasanaethau, ac yn dylanwadu ar gynlluniau comisiynu fel bod y rhaglen ar gael yn helaeth a'i bod yn rhan allweddol o ofal drwy ymyrraeth gynnar yn y dyfodol.
- Gobeithiwn ddefnyddio'r daflen yn sail ar gyfer datblygu rhywbeth tebyg ar gyfer pobl ifanc, gan addasu'r cynnwys i adlewyrchu'r hyn sy'n wynebu pobl ifanc dan ddeunaw oed. Y nod yw meithrin cyswllt â phobl ifanc yn eu cymunedau eu hunain a'u cefnogi i ehangu eu rhwydweithiau cymdeithasol a datblygu eu cadernid emosiynol.

Cydweithio ag asiantaethau sy'n bartneriaid

Buom yn gweithio gyda phartneriaid fel Heddlu Gogledd Cymru ac lechyd wrth greu protocol Adran 135/136. Mae a wnelo'r protocol hwn â gofalu am bobl mewn argyfwng o dan y Ddeddf lechyd Meddwl, a'i nod yw sicrhau yr ymatebir yn chwim ac yn briodol pan fydd rhywun mewn trallod meddyliol.

Fe wnaeth y protocol hwn wahaniaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- Ymatebir yn chwim i bobl a roddwyd dan gadwad o dan Adran 136, ac mae hynny wedi gostwng yr amserau aros;

- Mae'r broses a llwybr yr unigolyn drwyddi yn fwy tryloyw bellach;
- Ceir gwell cyfathrebu rhwng yr asiantaethau sy'n bartneriaid ac rydym wedi meithrin dealltwriaeth o swyddogaethau pob asiantaeth;
- Mae pawb sy'n rhan o'r broses wedi ennill gwell dealltwriaeth o'r gyfraith a hawliau dynol;
- Mae wedi amlygu patrymau o ran rhoi pobl dan gadwad, a meysydd lle gellir gwella.

Cafwyd ychydig o heriau o ran deall y gyfraith a'r gwahaniaethau rhwng gweithdrefnau'r amryw bartneriaid. Mae'n braf gweld fod y gwaith amlasiantaethol yn gwneud gwahaniaeth er gwell.

Cyd-brosiect Cyfranogi sy'n Pontio'r Cenedlaethau

Codi Ymwybyddiaeth ynglŷn â Chyffuriau ac Alcohol


Bob blwyddyn mae Penaethiaid Gwasanaeth, Aelodau Etholedig a Phartneriaeth Pobl Conwy'n cwrdd â Chyngor Ieuenctid y Sir a'r Rhwydwaith Cyfranogi Oedolion er mwyn clywed barn y naill grŵp a'r llall ynglŷn â'r gwaith y maent wedi'i gyflawni. Blaenoriaeth y ddau ohonynt yn 2018 oedd codi ymwybyddiaeth ynglŷn â chyffuriau ac alcohol.

Drwy gydweithio fe luniodd y ddau grŵp gyfres o bosteri i godi ymwybyddiaeth, a gyflwynwyd yng Nghyfarfod Blyneddol Partneriaeth Pobl Conwy fis Medi 2018. Hyderwn y bydd y posteri hynny'n ennyn diddordeb pobl, yn rhoi cyngor gwerth chweil ac yn lleihau'r niwed a'r trafferthion a ddaw yn sgil camddefnyddio sylweddau.

Er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r pwnc fe drefnwyd sesiwn hyfforddiant ar y cyd wedi'i ddarparu gan CAIS, elusen gofrestredig sy'n darparu gwasanaethau yng ngogledd Cymru. Yn y sesiwn fe drafodwyd gwahanol fathau o gamddefnyddio sylweddau a'r niwed a'r trafferthion a ddaw yn eu sgil. Wedi hynny cafwyd sesiwn ymgynghori gyda Heddlu Gogledd Cymru, lle bu trafodaeth ynglŷn â'r ffordd y gall camddefnyddio sylweddau effeithio ar lefelau trosedd, a sut mae'r Heddlu'n gwario arian i fynd i'r afael â'r peth.

Wrth edrych i'r dyfodol dymunwn godi mwy o ymwybyddiaeth drwy rannu ein posteri ar gyfryngau cymdeithasol ac mewn ysgolion, llyfrgelloedd, swyddfeydd cyrff yn y trydydd sector a chanolfannau cymunedol.

Dyma rai o'r posteri dan sylw:



Ei gwneud yn haws i ddefnyddio ein gwasanaethau lles

Rydym wedi newid rhai o'n dulliau gweithredu fel ei bod yn haws i bobl Conwy ddod o hyd i wybodaeth, cyngor a chymorth o ran gweithgareddau lles yn lleol. Nawr mae Swyddogion Lles yn gweithio ochr yn ochr â thîm ein Un Pwynt Mynediad yn feunyddiol gan dderbyn galwadau wrth iddynt ddod i mewn. Mae hynny'n sicrhau nad oes unrhyw oedi wrth ymateb i ymholiadau.

Crëwyd rhif ffôn a chyfeiriad i bobl gysylltu â'r Tîm Lles Cymunedol yn syth, yn hytrach na mynd drwy'r Un Pwynt Mynediad, a **ffurfiwyd tîm** sy'n gyfrifol am rannu newyddion am y digwyddiadau a'r gwasanaethau sy'n digwydd yn lleol.

Beth nesaf?

Rydym yn bwriadu hyrwyddo ein gwasanaeth cyngor a gwybodaeth yn ehangach eto, yn enwedig gyda thimau Gofal Cymdeithasol mewnol a meddygon teulu sy'n ystyried trefnu gweithgareddau cymdeithasol ar bresgripsiwn i'w cleifion. Byddwn hefyd yn ceisio atgyfeirio mwy o bobl fel bod cynifer â phosib yn medru manteisio ar y gweithgareddau a ddarperir yng Nghonwy.



Cefnogi pobl â dementia.

Mae mwy o bobl yn marw o ddementia yn y Deyrnas Gyfunol nac unrhyw gyflwr arall, ac felly mae'n bwysig ein bod yn dal ati drwy'r amser i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r clefyd, a chanolbwyntio ar sut beth yw byw â dementia i'r unigolion dan sylw, yn ogystal â'r bobl sy'n gofalu amdanynt. Aeth Tîm Lles Cymunedol Conwy ar daith o amgylch y Sir gyda'r Bws Rhithwir Dementia fis Mawrth 2019, gan roi cyfle i ofalwyr di-dâl, anwyliaid a ffrindiau pobl â dementia gael cipolwg ar sut beth yw byw gyda'r cyflwr. Mae'r profiad i rywun ag ymennydd iach y nesaf peth at fod â dementia, gyda'r holl deimladau diamddiffyn a dryslyd y mae'r clefyd yn eu hachosi. Y gobaith oedd y byddai'r rhai a oedd yn cymryd rhan yn ennill gwell dealltwriaeth o'r cyflwr a'r gwahanol ffyrdd y mae'n effeithio ar ymddygiad, a'u bod yn teimlo fel y gallant gynnig gwell cymorth a chydymdeimlad i'r bobl sy'n derbyn gofal ganddynt.

Safon Ansawdd 3 – Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Beth a ddysgom ni o'r Arolwg Dinasyddion?

Dywedodd 75% o'r oedolion a gwblhaodd y fersiwn safonol o'r holiadur eu bod yn **teimlo'n ddiogel**. Fel yn y blynyddoedd o'r blaen, y pwnc llosg i'r grŵp hwn o bobl oedd bod ag ofn syrthio, ynghyd â'r diffyg hyder a ddaw yn sgil hynny wrth fynd o le i le yn annibynnol.

Rwy'n gwybod sut mae fy nghorff yn fregus.

Yn ddiogel rhag eraill, ond bydd yno wastad berygl o syrthio.

Rydym yn gweithio'n agos â Thîm Atal Codymau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wrth ddarparu cymorth o bobl sydd mewn perygl o syrthio. Gallai hynny gynnwys:

- Darparu deunydd darllen priodol
- Dosbarthiadau ymarfer corff
- Ffisiotherapi personol yn y gymuned
- Gweithgareddau yn y gymuned
- Asesu diogelwch yn y cartref
- Adolygu meddyginiaeth gyda Meddyg Teulu neu Fferylllydd
- Atgyfeirio at wasanaethau podiatreg neu optometreg.

Cefnogir Cynllun Atal Codymau Gogledd Cymru gan bartneriaid yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Cyngor Conwy a'r trydydd sector gydol y sir.

Dywedodd 88% o'r oedolion a gwblhaodd y fersiwn hawdd ei ddarllen o'r holiadur eu bod yn teimlo'n ddiogel. Roedd y gweddill yn fwy tueddol o deimlo nad oeddent yn ddiogel yn y nos neu mewn torfeydd o bobl.

Roedd 83% o Ofalwyr yn teimlo'n ddiogel. Yn ôl y sylwadau ychwanegol mae amrywiaeth o resymau dros beidio â theimlo'n ddiogel, gan gynnwys cyfyngiadau corfforol, bod ag ofn syrthio, gofalu am rywun â dementia sy'n medru bod yn ymosodol neu ymddwyn fel bwli, neu bryderu am ddyfodol y sawl sy'n derbyn gofal os cânt eu gadael ar eu pennau'u hunain.

Rwy'n sâl fy hun, mewn dim cyflwr i ofalu am neb arall.

Rwy'n poeni weithiau pe byddwn i'n cael damwain... beth fyddai'n digwydd i fy ngŵr?

Roedd 85% o blant yn teimlo'n ddiogel, a 10% arall yn teimlo'n ddiogel weithiau.

Rwy'n teimlo'n ddiogel gartref ond rwy'n pryderu am bobl y tu allan.

Maen nhw bob tro'n gwneud yn siŵr fy mod i'n ddiogel, ble bynnag rwy'n mynd.

Mae Diogelu'n Fusnes Pawb

Rydym yn gwneud ein gorau glas i sicrhau fod pob aelod o staff yng Nghonwy'n cael hyfforddiant ynglŷn â diogelu. Yn 2017-18 fe gyflwynom gyrsiau hyfforddiant ar-lein ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Domestig a Rhywiol a Diogelu Oedolion a Phlant mewn Perygl.

Mae'r cyrsiau hyn yn rhai gorfodol i bob aelod o staff a'r Aelodau Etholedig. Darparwyd hyfforddiant diogelu hefyd i weithwyr yn y trydydd sector a'r gweithwyr gofal uniongyrchol sy'n ein helpu i gynnal ein gwasanaethau.

Yn ystod Wythnos Diogelu (12-17 Tachwedd 2018) buom yn hyrwyddo cyfres o **Sesiynau Briffio Saith Munud** ar gael ar wefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru. Roedd y rhain yn rhoi blas i staff ar amrywiaeth o themâu diogelu, yn codi eu hymwybyddiaeth ac yn eu cyfeirio at fwy o wybodaeth.

Mae gennym Reolwyr Diogelu Dynodedig sy'n gyfrifol am faterion diogelu ymhob maes gwasanaeth yn y Cyngor. Er mwyn sicrhau dull cyson gydol y Cyngor o ran diogelu, trefnwyd diwrnodau datblygu ar gyfer deiliaid y swyddi hynny. Hyd yn hyn mae'r sesiynau wedi canolbwyntio ar gam-drin domestig a cham-drin rhywiol, a gwahoddwyd arbenigwyr yn y meysydd hynny i roi cyflwyniadau. Rydym yn dal i ddatblygu ein **gwe-dudalennau ynglŷn â diogelu** sy'n galluogi pobl i adrodd ynghylch mater diogelu os ydynt yn poeni am rywun. Mae ein **Polisi Diogelu Corfforaethol** yn datgan cyfrifoldebau'r Cyngor o ran diogelu ac yn nodi'r broses ar gyfer codi pryderon.



Ydi hyrwyddo Diogelu'n gweithio?

- Drwy godi proffil diogelu oedolion a gwella'r ffordd y mae asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd, mae nifer y cynlluniau diogelu ar gyfer oedolion wedi codi o 76 yn 2017-18 i 114 yn 2017-18.
- Mae'r risg y bydd oedolion diamddiffyn yn dioddef neu'n destun camdriniaeth neu esgeulustod yn cael ei leihau ac mae'r cyhoedd yn deall yn iawn fod angen diogelu pobl, ac yn gwybod beth i'w wneud os oes rhywbeth yn codi o ran diogelu.
- Daw diogelu yn rhan annatod o'n harferion gwaith a diwylliant y Cyngor.

Cyfranogi a Chydweithio

Cynrychiolir pob rhan o'r gwasanaeth mewn grwpiau diogelu lleol a rhanbarthol sy'n ymdrin â phlant ac oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru (oedolion a phlant), Grŵp Cyflawni Ymarfer Conwy a Sir Ddinbych, grwpiau gweithlu a grwpiau hyfforddiant ymysg eraill. Rydym hefyd yn cadw golwg ar ein prosesau gweithredol drwy baratoi adroddiadau perfformiad rheolaidd, trafod pethau yn y Fforwm Diogelu a cheisio cyngor cyfreithiol ar yr adeg iawn os oes ei angen.

Mae'n dal yn anodd sicrhau ymgysylltu a chyfranogiad ystyrlon. Eleni, fodd bynnag, cynhaliodd Cyngor Conwy gynllun peilot i arbrofi â'r dull *sgiliau cydweithredol* o ymdrin â gwaith achos yn y Tîm Asesu a Chefnogi. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan rieni, gofalwyr a phobl ifanc am y gwasanaeth a dderbyniwyd, a bydd hynny'n cyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Blant.

Un o'r heriau cyson yw'r angen i wella cyfranogiad tadau mewn prosesau Cynadleddau Amddiffyn Plant a Grwpiau Craidd, gan fod lefelau cyfranogiad yn gostwng fesul dipyn.

Mae'r Cadeirydd bob amser yn cynnig cwrdd â thadau absennol i drafod y prosesau, ac yn gofyn iddynt am sylwadau ysgrifenedig os nad oes modd iddynt ddod i gynadleddau.

Diogelu Plant

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae Conwy wedi buddsoddi llawer iawn o amser ac ymdrech yn y deuddeg mis diwethaf wrth godi ymwybyddiaeth a sicrhau trefniadau cyfathrebu da rhwng gwahanol asiantaethau. Cynhelir y Fforwm Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant bob chwe wythnos lle mae Gofal Cymdeithasol yn cymryd yr awenau ac amrywiaeth o asiantaethau'n cyfrannu, yn ogystal ag adrannau eraill o'r Cyngor. Wedi pob fforwm mae Gweithwyr Cymdeithasol a'u Rheolwyr Tîm yn cyhoeddi bwletin i reolwyr yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i sôn am bobl ifanc (dioddefwyr honedig), oedolion (troseddwy honedig), lleoliadau, tueddiadau a themâu. Yn ddiweddar bu Gweithiwr Cymdeithasol yn y Gwasanaeth Plant yn cynnal cynllun peilot gan hwyluso set ddysgu ar gyfer achos o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, a oedd yn cynnwys cyfraniadau nid yn unig gan y Gweithiwr Cymdeithasol dan sylw, ond hefyd y gweithwyr proffesiynol eraill yn fewnol ac yn allanol a fu'n ymwneud â'r achos. Cafwyd ymateb da, ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i weld a ellid cynnig hyn i'n cydweithwyr eto yn y dyfodol.

Mae yno ddiwylliant iach yng Nghonwy o weithio'n dda drwy bartneriaeth rhwng Gweithwyr Cymdeithasol a Heddlu Gogledd Cymru, yn enwedig felly Cwnstablaid a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, gan mai'r rhain yw'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymdrin â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant o ddydd i ddydd.

Ail-lansiwyd y Fforwm ym mis Ionawr 2019, a bellach fe'i gelwir yn 'Fforwm Camfanteisio' er mwyn cynnwys mathau eraill o gamfanteisio, gan gynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Cynradd a Chamfanteisio'n Droseddol ar Blant.

Cyfrannodd staff Conwy at y ddrama 'Mirror Mirror' (Prosiect Gwella) a fu ar daith ledled gogledd Cymru. Bu gweithwyr Gofal Cymdeithasol yn meithrin cyswllt â chydweithwyr yn y gwasanaeth Addysg er mwyn sicrhau fod pob ysgol uwchradd yng Nghonwy'n cymryd rhan. Anelwyd y prosiect at blant ym mlynedd 7 ac 8 mewn ysgolion uwchradd ledled gogledd Cymru.

Enillodd Conwy **Wobr Gofal Cymdeithasol** fis Medi 2018 am arwain cynllun amlasiantaethol i atal camfanteisio'n rhywiol ar blant. Buom yn gweithio gyda'n partneriaid o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Addysg, Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaethau Ieuencid Conwy, ynghyd â busnesau preifat yng Nghonwy. Dywedodd y beirniaid mai dyma'r esiampl orau o gydweithio yr oeddent wedi ei gweld yng Nghymru.

Beth nesaf?

Rydym yn cynnal cynlluniau peilot ar gyfer 'Llysgenhadon Lles' mewn dwy ysgol uwchradd yng Nghonwy. Mae'r gwaith yn seiliedig ar gydweithredu da rhwng gwahanol asiantaethau, gweithwyr proffesiynol a'r sector gwirfoddol. Bydd dwy elfen wahanol i'r swyddogaeth hon i ddisgyblion, ond rydym yn bwriadu ymdrin â themâu sydd a wnelont â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Chamfanteisio'n Droseddol ar Blant, yn ogystal â phynciau llosg fel iechyd meddwl, hunan-niweidio, trais domestig a chamddefnyddio sylweddau. Rydym hefyd yn ystyried cynnal cynllun peilot amlasiantaethol arall ar thema lles, gyda rhieni yn y Canolfannau Teuluoedd newydd yng Nghonwy.

Cawsom wahoddiad hefyd i gyflwyno ein gwaith yn y maes hwn i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor, yn sgil ein llwyddiant yn y Gwobrau Gofal Cymdeithasol.

Ymdrin ag achosion cymhleth

Ffurfiwyd Panel Trothwy Gofal er mwyn sicrhau fod rheolwyr gydol y gwasanaeth yn cael gorolwg dros achosion mwy cymhleth gyda phobl ifanc a allai fod mewn perygl o ddod yn blant sy'n derbyn gofal ac yn cyflawni swyddogaeth sicrhau ansawdd, gan sicrhau fod trefniadau diogelu ar waith i amddiffyn y plant. Fe gynhaliom archwiliad a dod i'r casgliad fod y Panel Trothwy Gofal yn cefnogi gweithwyr cymdeithasol llai profiadol ac yn rhoi cyfleoedd i ymchwilio i fathau eraill o gymorth gyda chyfraniad gan bartneriaid. Daethpwyd i'r casgliad fod oddeutu 80% o blant a drafodwyd mewn panel wedi cael cefnogaeth i aros gyda'u teuluoedd. Mae'r panel yn dal i ddatblygu a bydd yn ymateb i'r newidiadau arfaethedig yn y Gwasanaeth Trothwy Gofal.

Rydym wedi nodi rhai ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at ymyrraeth lwyddiannus:

- Darparu oedolyn caredig y gall yr unigolyn ifanc ymddiried ynddo/ynddi
- Rhannu gwybodaeth
- Meithrin perthynas rhwng pawb sy'n rhan o'r broses
- Cynlluniau trefnus ac eglur a gaiff eu hadolygu'n gyson
- Swyddogaethau a disgwyliadau pendant
- Canolbwyntio ar ysgogi newid o ran y rhieni hefyd
- Dull rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar faterion penodol
- Dyfalbarhad a chysondeb
- Presenoldeb a chyfraniad amlasiantaethol.



Datblygiadau o ran Diogelu Oedolion

Gweithgor Hunan-esgeuluso

Sefydlwyd y Gweithgor Hunan-esgeuluso ym mis Chwefror 2017. Diben y grŵp yw gwella ymarfer, a chefnogi gweithwyr cymdeithasol sy'n ymdrin â phobl sy'n esgeuluso eu hunain. Y Gweithiwr Cymdeithasol yn aml oedd yr unig weithiwr proffesiynol ynghlwm wrth unrhyw achos fel hyn, ac yn aml iawn roedd yr unigolion dan sylw'n gyndyn o feithrin cyswllt, ac yn byw mewn sefyllfaoedd â risg uchel. Dros y flwyddyn aeth heibio mae'r Gweithgor wedi tyfu i gynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau Iechyd Meddwl, Tai, Ambiwlans Cymru, Diogelwch Tân, Bwrdd

lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Gwasanaethau Cyfreithiol, yn ogystal â Gofal Cymdeithasol. Pan fydd y gweithgor yn cwrdd bob mis bydd yno siaradwr gwadd yn rhannu gwybodaeth am hunan-esgeuluso. Er enghraifft, cafwyd sgysiau gan Therapydd Galwedigaethol sy'n arbenigo mewn celcio, a chyfreithiwr a fu'n rhoi cyngor ynglŷn â'r gyfraith ar hunan-esgeuluso a chelcio. Mae Gweithwyr Cymdeithasol hefyd yn dod i gyflwyno'u hachosion i'r Gweithgor, ac yn cael cynnig cyngor, arweiniad a chymorth asiantaethol.

Cyfranogiad

Caiff unrhyw un y credir sydd mewn cryn berygl oherwydd hunan-esgeuluso wahoddiad i gyfarfod amlasiantaethol ynghyd ag aelodau o'r teulu/gofalwr. Drwy wneud hyn gellir sicrhau fod yr unigolyn yn ganolog i'r broses drwy'r amser.

Beth nesaf?

Byddwn yn gweithio gyda'n tîm lechyd a Diogelwch i ddatblygu canllawiau cryno ar gyfer asesu risg. Bydd hynny'n sicrhau fod unrhyw un sy'n hunan-esgeuluso neu'n celcio yn cael asesiad risg trwyadl.

Fforwm Diogelu Oedolion

Ailsefydlwyd y Fforwm Diogelu Oedolion ac fe'i cynhelir bob deufis. Ceir cynrychiolaeth o bob gwasanaeth perthnasol ym maes Gofal Cymdeithasol, ac mae hynny'n cyfrannu at lwyddiant y Fforwm. Nod y Fforwm yw trafod unrhyw bolisiau a gweithdrefnau newydd a'r wybodaeth ddiweddaraf gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru. Mae'r Fforwm hefyd yn darparu gwybodaeth am unrhyw hyfforddiant sydd ar y gweill neu sydd eisoes wedi digwydd. Caiff y timau oedolion gyfleoedd hefyd i godi unrhyw faterion a hyrwyddo arferion da ym maes Diogelu.

Yn ogystal â thrafod yr eitemau rheolaidd ar y rhaglen, mae'r Fforwm hefyd yn estyn gwahoddiadau i siaradwyr gwadd. Hyd yn hyn rydym wedi gwahodd Heddlu Gogledd Cymru i drafod Llinellau Sirol a meddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i werthu cyffuriau. Mae trafodaethau am faterion eraill wedi'u trefnu, gan gynnwys caethwasiaeth fodern, *Prevent* ac eiriolaeth.

Sicrhau Ansawdd ein Prosesau Diogelu

Mae Conwy'n ymrwymo i sicrhau ansawdd y gwasanaeth cyfan, gan sicrhau dull cynhwysfawr o reoli ansawdd. Un o'r dulliau pennaf o sicrhau ansawdd yw cynnal adolygiadau ymarfer o fewn y gwasanaethau gan ddefnyddio dulliau archwilio sy'n gosod fframwaith trefnus ar gyfer y broses. Mae yno ddiwylliant wedi hen sefydlu lle mae gwaith achos yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i archwilio mewn ffordd systematig.

Nid yw hyn yn rhywbeth sy'n digwydd unwaith neu ar ei ben ei hun, ond yn hytrach mae'n gylch parhaus o gynllunio gwasanaethau, eu gweithredu a'u hadolygu er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i blant a theuluoedd drwy ddatblygu gwybodaeth ac ymarfer proffesiynol.

Yn ogystal â'r adolygiadau ffurfiol wedi'u targedu, mae pob rheolwr ac aelod o staff yn gyfrifol am adolygu cofnodion achosion yn rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn mynd ati'n ddiymdroi i ganfod unrhyw wybodaeth sydd ar goll.

Mae goruchwyllo'n arf allweddol wrth sicrhau atebolrwydd a chefnogaeth yn ogystal â dysgu a datblygu proffesiynol i bob aelod o staff Gofal Cymdeithasol. Un agwedd bwysig ar oruchwyliaeth fyfyrion yw galluogi staff i gwestiynu eu hymarfer, dadansoddi'n feirniadol ac arfarnu eu profiadau, a chael ôl-drafodaeth wedi bod mewn sefyllfaoedd heriol neu ddiryngol.



Safon Ansawdd 4 – Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas

Beth a ddysgom ni o'r Arolwg Dinasyddion?

Fe ofynnem i bobl a oeddent yn medru **gwneud beth sy'n bwysig iddynt** a chafwyd gwahanol ymatebion gan yr amryw garfannau. Dywedodd 44% o'r oedolion a gwblhaodd y fersiwn safonol o'r holiadur eu bod yn medru, a dywedodd 40% mai dim ond weithiau y medrant. Mae'r sylwadau ategol bron i gyd yn sôn sut mae anableddau neu gyfyngiadau corfforol yn effeithio ar allu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau, neu hyd yn oed fynd allan o'r tŷ.

Mae anabledd yn cyfyngu ar beth fedra i ei wneud.

Rwy'n medru cael mynediad at y pethau sy'n bwysig imi gyda chymorth y staff, gan y mod i'n cael trafferth symud.

Roedd yr oedolion hynny a gwblhaodd y fersiwn hawdd ei ddarllen o'r holiadur yn fwy bodlon ar y cyfan, a dywedodd 81% ohonynt y medrant wneud eu hoff bethau. Ni ddywedodd neb o'r garfan hon na fedrai wneud rhai o'i hoff bethau, ond mae'r sylwadau ategol yn awgrymu y byddai pobl yn falch o gael mwy o glybiau a gweithgareddau, gan gynnwys pêl-droed, criced, teithiau yn y car a garddio.



Roedd mwy o anffodlonrwydd ymysg Gofalwyr, a dim ond 41% ohonynt a ddywedodd y gallant wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae pobl yn y garfan hon yn aml yn rhoi blaenoriaeth i anghenion y sawl sy'n derbyn gofal dros eu hanghenion eu hunain, ac o ganlyniad maent yn ei chael yn anodd dilyn eu diddordebau. Mae rhai gofalwyr yn ymdopi â chyflyrau iechyd eu hunain hefyd, yn ogystal â chyflyrau'r sawl sy'n derbyn gofal.

Rydw i wedi byw ers blynyddoedd yn gwyllo'r cloc, gan nad ydych chi'n cael unrhyw amser i chi'ch hun fel Gofalwr.

Mae Gofalu'n mynd â'r rhan fwyaf o amser rhywun, felly does dim amser i wneud eich pethau eich hun.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cydnabod fod gan Ofalwyr yr un hawl i gael asesiad o'u hanghenion. Gall pob Gofalwr gael asesiad, sy'n gyfle iddynt siarad am y pethau sy'n bwysig iddynt a chlywed am ba wybodaeth, cymorth neu wasanaethau sydd ar gael i'w cefnogi.

Roedd 55% o blant yn cytuno y gallant wneud eu hoff bethau. Ymddengys mai prinder arian yn bennaf sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau, a bod hynny'n gysylltiedig â gorbryder cymdeithasol a diffyg gweithgareddau addas.

Fe ofynnem i bobl a oeddent yn fodlon â'r **rhwydweithiau cymdeithasol/pobl o'u cwmpas**. Dywedodd 84% o oedolion eu bod yn fodlon â'r gefnogaeth gan eu teuluoedd, ffrindiau a chymdogion. Roedd y sylwadau ategol yn cadarnhau fod rhwydweithiau teuluol yn bwysig, a bod pobl yn croesawu a gwerthfawrogi ymweliadau gan deulu a ffrindiau. Mae llawer o bobl, serch hynny, yn teimlo'n unig ac yn ddieithr am eu bod yn byw'n bell oddi wrth eu teuluoedd, neu os nad oes perthynas agos rhyngddynt, neu os nad ydynt wedi integreiddio yn eu cymunedau.

Mae'r teulu'n bell i ffwrdd ac ddim yn ymweld yn aml.

Mae fy ngwraig yn fy nghefnogi. Tydw i bydd yn gweld fy nghymdogion a does gen i ddim teulu gerllaw.

Rwy'n cadw mewn cysylltiad â fy nheulu dros y ffôn gan nad ydynt yn byw'n lleol. Wedi gwneud ffrindiau â'r bobl sy'n byw wrth fy ymyl.

Roedd 90% o'r oedolion a gwblhaodd y fersiwn hawdd ei ddarllen o'r holiadur yn fodlon â'r bobl o'u cwmpas.

Dim ond 66% o Ofalwyr oedd yn cytuno â'r datganiad, fodd bynnag. Mae llawer ohonynt yn byw yn bell oddi wrth eu teuluoedd, neu'n cydnabod fod pobl eraill yn brysur gyda'u bywydau a'u cyfrifoldebau eu hunain.

Mae pawb yn fy nheulu'n gweithio ac nid ydynt ond yn medru ymweld o bryd i'w gilydd ar y penwythnos.

Does dim teulu gan fy ngwraig na finnau, ac felly rydym yn dibynnu ar gymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym yn ddiolchgar dros ben amdano.

Dywedodd 73% o blant eu bod yn fodlon â'r gefnogaeth gan eu teuluoedd, ffrindiau a chymdogion.

Gwella cyfathrebu i bawb

Canolbwyntio ar Namau ar y Synhwyrâu

Bu'r Gwasanaeth Anableddau'n gweithio â Fforwm Pobl Fyddar Conwy a Thîm Gwella a Datblygu Corfforaethol y Cyngor i ddatblygu dull i'w weithredu gydol y sefydliad er mwyn bodloni anghenion cyfathrebu pobl â nam ar y synhwyrâu. Mae **Cynllun Corfforaethol y Cyngor** yn canolbwyntio ar sicrhau fod pobl â nam ar y synhwyrâu'n cael mynediad cyfartal at wasanaethau. Wrth ymgynghori â'r aelodau, canfu'r Fforwm fod cyfathrebu'n allweddol er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i bobl fyddar. Rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddiant i staff a darparu gwasanaeth cyfieithu *'Interpreterslive'* ar dderbynfeydd y Cyngor, a hefyd ar y wefan a'r ap. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n awr i gyfieithu gwybodaeth allweddol i laith Arwyddion Prydain ar gyfer fideos ar ein gwefan, a phrofi meddalwedd *Browsealoud* a *Recite* er mwyn gwneud pethau'n haws i bobl â nam ar y golwg neu ddyslecsia. Gwnaethpwyd cynnydd gwerth chweil hyd yn hyn.

Ar ben hynny, ar sail ymgynghori â phobl fyddar drwy Fforwm Conwy, mae'r Gwasanaeth Anableddau mewn partneriaeth â Cydweithredu i Ofalu wedi mynd ati i gefnogi grŵp o unigolion wrth iddynt sefydlu Gwasanaeth Cyfieithu a Chymorth i Bobl Fyddar Conwy, gan gynnal sesiwn galw heibio ar gyfieithu bob pythefnos. Diben y Gwasanaeth Cyfieithu a Chymorth yw goresgyn y rhwystrau sydd o flaen pobl fyddar wrth iddynt geisio dod o hyd i wybodaeth, cyngor a chymorth. Mae unigolion yn medru archebu sesiynau personol gyda chyfieithydd ymlaen llaw. Bydd y grŵp yn gweithio yn swyddfeydd newydd y Cyngor eleni.

Beth oedd yr heriau?

- Roeddem yn awyddus i sicrhau ein bod yn rhoi sylw cyfartal i farn ein rhanddeiliaid wrth lunio'r cynllun gweithredu.
- Rydym hefyd wedi gweithio'n galed i fagu hyder staff wrth gyfathrebu â phobl fyddar.

Beth nesaf?

Byddwn yn dal i ddatblygu'r cynllun gweithredu mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chymorth a'r sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gweithio yn y maes hwn. Byddwn yn ystyried beth arall y mae angen i'r Cyngor Sir ei wneud er mwyn cyflawni'r camau gweithredu amrywiol ynghylch cydraddoldeb a nodir yn y fframwaith newydd, **Gweithredu ynghylch Anabledd: yr hawl i Fyw'n Annibynnol**. Byddwn yn magu hyder holl staff y Cyngor i 'roi cynnig ar' gyfathrebu â phobl fyddar gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, yn hytrach na gweld hyn fel rhywbeth arbennig y dylai rhywun ym maes Gofal Cymdeithasol ymdrin ag ef.

Cymorth Eirioli

Pan mae eiriolaeth yn troi'n gyfeillgarwch

Sefydlwyd **Cyswilt Conwy** ar gyfer Anableddau Dysgu ym 1997, er mwyn helpu i hyrwyddo hawliau pobl ag anableddau dysgu yng Nghonwy a ledled gogledd Cymru.

Mae 'M', cyn-ddefnyddiwr y gwasanaeth *Livability*, yn gweithio fel eiriolwr dros bobl anabl Cymru, ac fe ffurfiodd grŵp ffrindiau ddeng mlynedd yn ôl sydd bellach â 90 o aelodau. Yn sgil ei llwyddiant fe'i hetholwyd yn gynrychiolydd ar Gyngor Cenedlaethol Pobl yn Gyntaf Cymru, sy'n cwrdd yng Nghaerdydd i drafod materion sy'n effeithio ar fywydau beunyddiol pobl ag anableddau.

Ym mis Rhagfyr 2018 bu 'M' yn enillydd yng ngwobrau *Dimensions*, gan ddod i'r brig fel Arweinydd Anableddau Dysgu ac Awtistiaeth yn y categori Newid Cymunedau. Pan ofynnwyd iddi beth oedd yn ei sbarduno, dywedodd 'M': "fy nod ydi fod pobl yn magu mwy o hyder i fynd allan â chymysgu gydag eraill. Dw i'n teimlo fy mod i'n gwneud gwahaniaeth yma – fyddai 'na ddim grŵp ffrindiau hebda i."

Helpu pobl i gyflawni'u potensial

Tîm Anableddau Dan 25

Mae'r Tîm Anableddau Dan 25 yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc anabl a'u cynorthwyo i adnabod:

- Eu targedau personol;
- Unrhyw rwystrau rhag eu cyflawni;
- Unrhyw risgiau os na chyflawnir y targedau;
- Cryfderau a galluoedd y plentyn/unigolyn ifanc.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn sôn am un o'n hymyriadau llwyddiannus.

Mae 'C' yn ŵr ifanc 21 mlwydd oed sydd ag anabledd dysgu sylweddol. Fe fu'n mynychu ysgol arbenigol leol cyn treulio tair blynedd mewn coleg preswyl, gan ddatblygu ei sgiliau byw'n annibynnol a chael cyfleoedd i gael gwaith a meithrin sgiliau byd gwaith. Rhoddodd y Gwasanaeth Anableddau gymorth i 'C' gyflawni ei darged personol o fyw'n annibynnol a gweithio yn y diwydiant adeiladu. Mae bellach yn byw mewn fflat ar ei ben ei hun heb fawr ddim cymorth, ac fe'i hatgyfeiriwyd at raglen waith. Roedd arno angen ychydig o gefnogaeth wrth symud i mewn i'r fflat a threfnu taliadau debyd uniongyrchol, ond mae'n annibynnol iawn erbyn hyn ac yn amlwg yn ei gymuned leol. Mae'n mynd i siopa, yn defnyddio cludiant cyhoeddus, ac ar ôl gwneud ychydig o ffrindiau mae'n mwynhau gweithgareddau cymdeithasol.

Anableddau – darpariaeth addysgol ar y cyd

Ers Medi 2018 mae'r Gwasanaeth Anableddau a Choleg Llandrillo wedi cynnig darpariaeth addysgol ôl-19 ar y cyd ar gyfer pobl ifanc ag Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog. Cynllun peilot yw hwn a sefydlwyd er mwyn canolbwyntio ar ddulliau lleol o ddatrys y diffyg darpariaeth addysgol ar ôl 19 oed, fel nad oes yn rhaid i bobl ifanc ag anghenion cymhleth fynd i golegau preswyl y tu allan i'r sir. Erbyn hyn mae tri o bobl ifanc yn elwa ar y ddarpariaeth.

Y ffordd y mae hyn yn gweithio yw bod y coleg yn darparu tiwtor a'r Gwasanaeth Anableddau'n darparu'r cyfleusterau a'r gweithwyr cymorth ychwanegol. Darperir y gwasanaeth yng Nghanolfan Marl, a adnewyddwyd yn ddiweddar. Yn sgil y gwaith adnewyddu mae'r ganolfan yn medru bodloni anghenion pobl ifanc ag anableddau corfforol, ac mae yno ystafell celf synhwyraidd o'r radd flaenaf.

Mae'r ddarpariaeth yn rhoi dilyniant i bobl ifanc a'u teuluoedd. Er enghraifft, bu tiwtoriaid y coleg yn gweithio'n agos gyda staff addysgu Ysgol y Gogarth er mwyn sicrhau fod cynlluniau effeithiol ar waith ar gyfer pontio rhwng yr ysgol a'r ddarpariaeth ôl-19. Diolch i'r ddarpariaeth hon gall pobl aros yn yr ardal a chynllunio'n effeithiol ar gyfer eu dyfodol, ac mae Gweithwyr Cymdeithasol a phartneriaid eraill mewn meysydd fel lechyd yn medru dod i'w hadnabod yn dda. Mae'r staff hefyd yn dysgu sgiliau newydd drwy weithio gyda thiwtoriadaid y coleg.



Ar ben hynny, mae'r Gwasanaeth Anableddau wedi agor drysau fflat yng Nghanolfan Marl i bobl ifanc ar y cwrs Sgiliau Byw'n Annibynnol yng Ngholeg Llandrillo. Mae hynny'n golygu fod cyfranogwyr y cwrs yn cael dysgu sgiliau byw'n annibynnol mewn fflat go iawn sy'n agos at gyfleusterau lleol.

The Toddlers Who Took on Dementia

Fis Mehefin 2018 roeddem yn falch o fod yn rhan o ffilm ddogfen ar y BBC a oedd yn dilyn arbrawf unigryw gan seicolegwyr ym Mhrifysgol Bangor. *A fedr bod yng nghwmni plant bach liniaru ar effeithiau dementia?* Daethpwyd ynghyd ag oedolion yn eu 70au a'u 80au a phlant bach, a oedd i gyd yn derbyn gofal dydd o ryw fath neu'i gilydd, i gymryd rhan mewn gweithgareddau a rhannu straeon ac atgofion yng nghanolfan ddydd Llys Elian. Bu'r amser a dreuliodd pawb gyda'i gilydd yn fuddiol iddynt oll mewn ffyrdd annisgwyl, ac erbyn hyn mae'r arbrawf wedi troi'n gynllun rheolaidd sy'n golygu bod y naill garfan a'r llall yn dal i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Gallwch weld '[Clips from the show](#)' ar wefan y BBC.

Cefnogaeth Deuluol ac Ymyrraeth

Tîm Ymyriadau Teuluol

Mae'r Tîm Ymyriadau Teuluol yn darparu gwasanaeth i deuluoedd ag anghenion gofal a chymorth pan mae pethau'n troi'n argyfwng. Diben pennaf y gwasanaeth yw darparu ymyriadau i deuluoedd ar sail asesiad a chynllun gofal a chymorth gan Weithiwr Cymdeithasol. Mae gennym amrywiaeth o raglenni a sesiynau i helpu teuluoedd, gan gynnwys:

- **Siarad â Phobl Ifanc yn eu Harddegau** – cwrs chwe wythnos i rieni a ddarperir ar y cyd â'r Canolfannau Teuluoedd.
- **Bydda'n Ddoeth, Bydda'n Wych, Bydda'n Bositif** – rhaglen sy'n helpu plant i gadw eu hemosiynau dan reolaeth.
- **Arferion Magu Plant** – gweithio gyda theuluoedd unigol sy'n ei chael yn anodd gosod ffiniau a threfn.
- **Seibiant i Ofalwyr Maeth** – gweithgareddau i blant lle mae perygl mawr y bydd y lleoliad yn mynd ar chwâl.

Beth nesaf?

Yn y flwyddyn nesaf byddwn yn gwneud ymdrech i gydweithio â'r Canolfannau Teuluoedd. Byddwn yn datblygu adnoddau ar gyfer darparu'r rhaglen Tadau Gofalgar.



Gadael Gofal

Dymunwn sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc sy'n gadael gofal, a'u helpu i gyflawni eu llawn botensial mewn cymdeithas drwy ddarparu cymorth amserol ac addas. Os gweithredir strategaethau effeithiol bydd yno lai o bobl ifanc yn cael eu dosbarthu fel Pobl Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) a bydd llai o ferched yn eu harddegau'n mynd yn feichiog. Drwy hybu sgiliau byw a chadernid a darparu dewis o lety gwahanol, gan gynnwys cymorth â thenantiaethau, gellir lleihau digartrefedd ac arwain pobl i ffwrdd o fyw mewn anhrefn. Er enghraifft, darparwyd sgiliau byw'n annibynnol i wyth o bobl ifanc, a bwriedir cynnal sesiwn hyfforddiant arall ym mis Medi. Mae'r hyfforddiant yn helpu'r bobl ifanc i ddysgu'n gynt am sut i reoli'r cartref, gan gynnwys cadw at gyllideb.

Cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal i gyflawni eu potensial

Sefydlwyd Cronfa Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth Cymru i helpu pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd yng ngofal awdurdod lleol, neu wedi bod, a'u galluogi i fanteisio at gyfleoedd a fydd yn eu harwain at fywydau annibynnol a llwyddiannus. Mae cymorth ar gael yn y meysydd canlynol:

- Addysg
- Cyflogaeth
- Iechyd a lles
- Tai
- Mynediad at gyngor a chymorth parhaus.

Gall pobl ifanc wneud cais i'r panel am grant o dan unrhyw un o'r categorïau hyn. Yn ystod y chwe mis cyntaf o'r flwyddyn mae 35 o bobl ifanc wedi elwa ar y cynllun.



Astudiaeth Achos

Mae 'B' yn 19 mlwydd oed ac wedi cael babi yn ddiweddar. Roedd hi'n teimlo'n unig yn y tŷ ar ôl geni'r babi, gan nad oedd modd iddi fynd o le i le heb wynebu'r drafferth o ddal y bws. Roed cariad 'B' yn gweithio oriau hir ac felly roedd hi gartref ar ei phen ei hun bron drwy'r dydd. Fe basiodd hi ei phrawf gyrru cyn geni'r babi ac roedd ganddi gar, ond heb ddigon o arian i dalu'r yswiriant.

Awgrymodd ei Chynghorydd Personol iddi wneud cais i Gronfa Dydd Gŵyl Dewi, ac fe lwyddodd gyda'r cais hwnnw. Roedd 'B' wrth ei bodd, ac erbyn hyn mae'n teimlo fod medru gyrru wedi rhoi hwb i'w lles ac wedi rhoi llawer mwy o annibyniaeth iddi, gan fod modd iddi ymweld â'i theulu a'i ffrindiau'n amlach, a mynd i apwyntiadau meddygol a dosbarthiadau gyda'r babi.

Beth oedd yr heriau?

Grant bach yw hwn ac felly bu'n heriol rhannu'r arian yn deg rhwng plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal, a sicrhau y gellid defnyddio'r arian ychwanegol i wneud y gwahaniaeth mwyaf posib yn eu bywydau.

Fodd bynnag, mae Cronfa Dydd Gŵyl Dewi bellach yn rhan o'r cynllun Ariannu Hyblyg, sy'n ein galluogi i wneud y gorau o'r arian sydd ar gael ar gyfer gwahanol gynlluniau, a sicrhau llwybr mwy pendant i bobl ifanc o ran y ddarpariaeth sydd ar gael iddynt. Po fwyaf o arian a drosglwyddir i Gronfa Dydd Gŵyl Dewi, po fwyaf o bobl ifanc a fedr elwa.

Beth nesaf?

Rydym yn ymchwilio i gynlluniau prentisiaeth priodol i bobl ifanc sy'n gadael gofal, a byddwn yn arfarnu'r rhai sydd wedi datblygu yn y flwyddyn sydd i ddod, er mwyn sicrhau cydraddoldeb i bobl ifanc sy'n gadael gofal ac efallai o dan anfantais yn y maes cystadleuol o ganfod gwaith. Rydym yn cydweithio'n agosach â'r Cynghorwyr Personol drwy gynnal cyfarfodydd yn fwy rheolaidd i drafod y paratodau ar gyfer pan fydd yr unigolyn ifanc yn gadael gofal. Byddwn hefyd yn cwrdd yn gynharach yn y broses – pan fydd y bobl ifanc yn 16 yn hytrach na 17 mlwydd oed – a hynny er mwyn sicrhau paratodau effeithiol ac i helpu'r Cynghorydd Personol i feithrin perthynas â'r unigolyn ifanc yn gynt, fel bod popeth yn mynd yn esmwyth wrth drosglwyddo i'r gwasanaethau oedolion.


Mae mwy o bwyslais bellach ar atal digartrefedd, ac mae'r tîm yn ymchwilio i ffyrdd o wneud y gorau o'r grantiau posib sydd ar gael er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n deillio o ddigartrefedd. Rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o efelychu rhaglen flaengar gan Glwb Pêl-droed Tottenham Hotspur, yn benodol er mwyn helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i fagu cadernid personol, dysgu dulliau o ymdopi a meithrin sgiliau byw.

Datblygu cynllun prentisiaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal

Er mwyn sicrhau fod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn teimlo'n barod am fyd gwaith, fe gynhaliom ddigwyddiad cyd-gynhyrchu er mwyn ennyn eu diddordeb mewn prentisiaethau a swyddi dan hyfforddiant. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau ar y diwrnod, gan gynnwys gwaith 'camau bychain, dyfodol mawr' a oedd yn dangos mor bwysig oedd prentisiaethau a chydabod y gall pobl gyflawni eu huchelgeisiau heb ddilyn y llwybr arferol o'r ysgol → prifysgol → gwaith. Fe wnaeth cyfraniad Coleg Llandrillo helpu hefyd i ddarbwylllo'r bobl ifanc ynglŷn â phethau a oedd yn eu tyb nhw'n eu rhwystro rhag cael mynediad at brentisiaethau.

Rydym wrthi'n cynnal cwrs peilot i bobl ifanc sy'n gadael gofal, *Paratoi ar gyfer Cyflogaeth*, mewn partneriaeth â Creu Menter (rhan o Gartrefi Conwy). Drwy hyn bydd pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael profiad gwaith wythnosol ar un o brosiectau Cartrefi Conwy. Gan fod Cartrefi Conwy'n sefydliad mor fawr mae amrywiaeth o swyddi ar gael, gan gynnwys gweinyddu, arlwyyo a chynnal a chadw. Bydd y cwrs hefyd yn helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i ddysgu dulliau o ymdopi tra byddant yn y gwaith, a byddant yn meithrin llu o sgiliau dros gyfnod o wyth wythnos:

1. Gosod targedau a bod yn frwdfrydig ac uchelgeisi
2. Sgiliau cyllidebu a deall hawliau o ran budd-daliadau
3. Ymwybyddiaeth ddigidol er mwyn gwneud y gorau o dechnoleg mewn ffordd ddiogel
4. Bod yn bendant a magu hyder
5. Cyfathrebu a sefyllfaoedd heriol
6. Ysgrifennu CV
7. Chwilio am swyddi a llenwi ffurflenni cais
8. Paratoi ar gyfer cyfweiliadau.



Defnyddiwyd y dulliau hyn yn rhai o'r achosion mwyaf cymhleth gyda phobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghonwy, a gobeithiwn ddatblygu'r cynllun ymhellach a rhoi cyfle i'r bobl ifanc ddylanwadu arno. Yn y diwrnod cydgynhyrchu cawsom glywed am rai pethau sy'n rhwystro pobl rhag llwyddo, ac felly byddwn yn gwneud ein gorau glas i fynd i'r afael â'r materion hynny er mwyn sicrhau fod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn meddu ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn iddynt gael y profiad gorau posib, a bod yn ddigon hyderus i siarad â gweithwyr proffesiynol a sicrhau cymorth parhaus, boed hynny ar ffurf cymorth ariannol neu fentora.

Prosiect OPUS

Mae prosiect OPUS Conwy'n cefnogi pobl 25 oed a hŷn i ddod o hyd i waith. Mae'r tîm yn darparu mentora, cyngor ar hawliau lles a therapi galwedigaethol, ac yn cefnogi pobl i oresgyn rhwystrau rhag dod o hyd i waith, cyfleoedd i wirfoddoli neu gymwysterau ar gyfer gwaith. Rydym yn falch o fod wedi cefnogi bron i ddau gant o bobl ddechrau eu gyrfaedd.

- Mae 58% wedi cwblhau hyfforddiant
- Mae 12% wedi gwirfoddoli
- Mae 10% wedi cael gwaith am fwy nag 16 awr yr wythnos.

Fe gawsom hefyd ymateb da iawn gan yr unigolion hynny'r ydym wedi'u cefnogi:

Wn i ddim beth fyddwn i wedi'i wneud heb gymorth a charedigrwydd holl staff OPUS.

Roeddwn i'n cael trafferth ag iselder, ond rwy'n hapusach bellach. Rydw i wedi dysgu i fod yn fwy cadarnhaol ac agored fy meddwl.

Astudiaeth Achos

Roedd B yn gweithio yn y byd manwerthu, yn yr un siop ers 25 mlynedd, ac yna fe gollodd ei swydd, a gafodd gryn effaith ar ei hyder. Roedd arni eisiau ailhyfforddi ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol, ond wyddai hi ddim ble i gychwyn.

Cofrestrodd B gyda'r Prosiect OPUS a chael anogaeth gan ei Chynghorydd i gymryd rhan yn y rhaglen STEPS, ac roedd hi wrth ei bodd. Roedd y grŵp yn gyfeillgar ac fe roddodd hwb i hunanhyder B. Yna cafodd B gymorth gan ei Chynghorydd i wneud cais am arian drwy OPUS i gael hyfforddiant, a chefnogaeth gyda lleoliad gwaith.

Ar hyn o bryd mae B yn myfyrio'n rhan-amser ac yn gweithio'n rhan-amser mewn swydd y mae'n ei mwynhau.

Safon Ansawdd 5 – Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol diogel

Beth a ddysgom ni o'r Arolwg Dinasyddion?

Dim ond 46% o oedolion sy'n teimlo'n rhan o'u cymunedau ac mae'r rhwystrau rhag hynny'n cynnwys bod wedi symud i'r ardal o rywle arall, methu â mynd o le i le oherwydd afiechyd corfforol, ac arwahanwydd cymdeithasol. Ar y llaw arall, roedd 87% o'r oedolion a gwblhaodd y fersiwn hawdd ei ddarllen o'r holiadur yn teimlo'u bod yn perthyn yn eu cymunedau.



Roedd 46% o Ofalwyr yn teimlo'n rhan o'u cymunedau; mae'r gyfradd yn isel, a'r rheswm pennaf am hyn yw bod yn rhaid iddynt roi blaenoriaeth i'w cyfrifoldebau gofalu dros fynd allan a chrwydro o amgylch eu cymunedau.

Roedd 70% o blant yn cytuno â'r datganiad hwn.

Fe ofynnwn ni i ofalwyr a oeddent yn teimlo'u bod yn cael **cefnogaeth i barhau yn eu swyddi gofalu** a dywedodd 64% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo felly. Mae'r sylwadau ychwanegol yn dangos fod gofaluwr dan bwysau mawr i gadw'n iach a medru dal ati i ofalu. Mae pobl yn bryderus ynglŷn â'r dyfodol a beth fydd yn digwydd i'w hanwyliaid.

Doedd dim dewis – mae'n rhaid ei wneud o.

Mae'n lle unig weithiau. Byth digon o amser i gysgu.

Fe holon ni ofalwyr hefyd a oeddent yn teimlo'n rhan baratoi'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn y maent yn gofalu amdanynt, a dywedodd 81% ohonynt eu bod yn teimlo felly.


Darparu cymorth i deuluoedd

Canolfannau Teuluoedd Conwy


Y llynedd fe soniom ein bod yn bwriadu agor Canolfan Deuluoedd yn Abergele er mwyn darparu cymorth hygyrch yn y gymuned, fel y gallai teuluoedd gael cefnogaeth yn gynt, a bod hynny ar gael i bob teulu. Mae'r Canolfan Deuluoedd yn mynd o nerth i nerth ac rydym wedi gwneud llawer o gynnydd wrth ddatblygu dull newydd ar gyfer ein gwasanaethau Cefnogi Cynnar ac Atal i deuluoedd yng Nghonwy.

Dros y flwyddyn aeth heibio fe wnaethom:

- Sefydlu pump o Dimau Lleol Cymorth i Deuluoedd – y Tîm o Amgylch y Teulu, gynt – a phenodi gweithwyr teuluoedd Dechrau'n Deg. Mae Canolfan Deuluoedd Llanrwst wedi bod ar agor ers sawl blwyddyn bellach, ac mae'r tîm yno'n dal i ddarparu gwasanaethau yn ne Conwy.
- Agor Canolfan Deuluoedd newydd yn Abergele (Canolfan Dinorben) i ddarparu gwasanaethau yn nwyrain Conwy.
- Datblygu a chyflwyno amserlen o sesiynau a gweithgareddau ymhob ardal, gan gynnwys grwpiau mynediad agored, cyrsiau magu plant, sesiynau â gwasanaethau sy'n bartneriaid a chymorth unigol i deuluoedd.
- Dechrau'r gwaith o ddatblygu Canolfan Deuluoedd ynghanol Conwy (Bae Colwyn a'r cyffiniau).
- Dal i weithio'n agos â theuluoedd a'r bobl hynny sy'n gweithio a theuluoedd – mae gennym Grŵp Cyngori Prosiectau sy'n cynnwys rhieni a phobl ifanc.



Gallwch ddysgu mwy am y Canolfannau Teuluoedd drwy gael golwg ar ein **ffilm ar YouTube**. Mae'r diagram isod yn dangos y cymorth sydd ar gael gan ein timau integredig.




Atgyfeiriodd 'S' ei hun at y Ganolfan Deuluoedd a hithau'n cael trafferth magu ei mab wyth oed a'i merch pedair ar ddeg mlwydd oed. Roedd 'S' newydd adael perthynas dreisgar a gormesol â'i chyn-bartner, ond roedd y plant wedi gweld trais domestig yn erbyn eu mam. O ganlyniad i hynny roedd mab 'S' yn ymddwyn yn heriol, rhywbeth y gallai fod wedi'i ddysgu gan ei dad, ac roedd ei merch yn cael trafferthion emosiynol difrifol ac yn ymddwyn yn fentrus ar y rhyngrwyd.

- Cysylltodd 'S' â'r Ganolfan Deuluoedd a chafodd ei hatgyfeirio at *Relate* ar gyfer cyfryngu teuluol.
- Atgyfeiriwyd ei merch at y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a'r rhaglen STAR.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd amlasiantaethol yn ysgolion y ddau blentyn er mwyn llunio cynllun gweithredu pendant ar y cyd ag asiantaethau eraill, a gwella'r berthynas a'r ddealltwriaeth rhwng y cartref a'r ysgol.
- Bu Gweithiwr Teulu'n gwneud gwaith 'Pot Pryderon' gyda'r tri aelod o'r teulu.

O ganlyniad i hyn, dywedodd ‘S’ ei bod yn medru bod yn rhiant mwy effeithiol i’w phlant, a bod eu hymddygiad hwythau wedi gwella. Roedd canlyniadau’r ymyrraeth hwn yn dda iawn, gyda phob asiantaeth yn cyfathrebu’n dda â’i gilydd er mwyn sicrhau bywyd tawelach a hapusach ar yr aelwyd i ‘S’ a’i phlant.

Ers mis Ebrill 2018, mae'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi gweithio â 588 o deuluoedd a ofynnodd am gymorth gan wasanaethau ataliol. Mae'r rhan helaeth o deuluoedd yr ydym yn gweithio â hwy wedi cael profiad o amrywiaeth o bethau fel trais domestig, afiechyd meddwl a chamddefnyddio alcohol neu sylweddau.



neu wrthi'n mynd drwy'r profiad. Nid yw'n beth anarferol i deuluoedd a phlant wynebu cyfuniad o'r materion hyn ar yr un pryd.

Tîm Cryfhau Teuluoedd

Mae'r Tîm Cryfhau Teuluoedd yn dîm profiadol o Weithwyr Cymdeithasol a Gweithwyr Therapiwtig â Theuluoedd. Maent yn darparu gwasanaeth atal, gan weithio i ddiwallu'r anghenion mwyaf dybryd lle mae teuluoedd ar fin chwalu. Mae'r tîm yn canolbwyntio ar atal plant rhag dod yn blant sy'n derbyn gofal drwy gefnogi teuluoedd i gadw pobl ifanc yn ddiogel gartref, neu alluogi pobl ifanc i ddychwelyd adref (os oes modd) drwy ddarparu cymorth dwys wedi'i deilwra i'r unigolyn. Ehangwyd sgiliau'r tîm sydd bellach yn darparu amrywiaeth o ymyriadau cymhleth, gan gynnwys therapi chwarae a chyfryngu teuluol.

Pa wahaniaeth a wnaeth hyn?

Hyd yn hyn atgyfeiriwyd 58 o bobl at y tîm, ac roedd ar lawer ohonynt angen dulliau amlasiantaethol er mwyn atal lleoliadau rhag mynd ar chwâl. O ganlyniad i hyn fe wnaeth 103 o blith 106 o blant aros yn eu cartrefi neu yn yr un lleoliad.

Beth oedd yr heriau?

- Rhoi'r gorau i ddulliau gweithredu traddodiadol, gan ganolbwyntio ar gryfderau yn ogystal â risgiau;
- Mynediad prydlon at y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc;
- Nid oedd modd penodi'r nifer llawn o staff i'r tîm, ac felly nid oedd ganddo gefnogaeth allweddol.
- Bodloni gofynion oedd yn gwrthdaro gan dimau mewnol.

Beth nesaf?

Rydym wedi buddsoddi arian ac amser datblygu yn aelodau presennol ein tîm, ac mae'n flaenoriaeth inni fedru cynnig contractau parhaol iddynt. Byddwn yn gweithio'n agos â'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc er mwyn datblygu dull ar y cyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â gweithredu'r llwybr hunan-niweidio ar y cyd â'r Gwasanaeth hwnnw.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

- Byddwn yn dal i gynnig lleoliadau i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol er mwyn darparu profiad gwerthfawr yn y maes;
- Bwriadwn feithrin cysylltiadau â'r Canolfannau Teuluoedd ledled Conwy er mwyn hyrwyddo dull 'camu i lawr' a helpu teuluoedd i ddatblygu rhwydweithiau yn y gymuned;
- Byddwn yn sefydlu grwpiau arbenigol ynglŷn ag ymglymiad ar gyfer teuluoedd, ac yn cefnogi pobl ifanc ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig;
- Mae arnom angen magu sgiliau a phrofiadau er mwyn ymateb i nifer cynyddol yr atgyfeiriadau ynglŷn â lleoliadau mabwysiadu'n mynd ar chwâl.



Astudiaethau Achos

Yn ddiweddar bu ein Tîm Cryfhau Teuluoedd yn gweithio â theulu â phlentyn (D) mewn perygl o ddod yn blentyn sy'n derbyn gofal, oherwydd gwrthdaro ac anghydfod ar yr aelwyd. Cafodd 'D' ddiagnosis o awtistiaeth, ac roedd yn ymddwyn yn heriol gartref. Gyda chymorth y tîm mae'r teulu bellach wedi datblygu a dysgu ffyrdd o ddelio ag ymddygiad heriol 'D'. Golyga hynny fod 'D' yn fwy cysurus, ac mae yno lai o wrthdaro ar yr aelwyd.

Mae 'T' wedi cael cymorth y Tîm Cryfhau Teuluoedd i hybu ei lles emosiynol, gan gynnwys cymorth i fynd i'r afael ag anawsterau iechyd meddwl. Treuliodd wythnosau lawer gyda 'T' yn gweithio ar ganolbwyntio ar ei thargedau personol. Rydym hefyd wedi cydweithio ag asiantaethau eraill sy'n darparu cymorth, a bu 'T' yn cymryd rhan mewn rhaglen sydd wedi'i galluogi i fod yn agored am brofiadau yn y gorffennol a gafodd effaith andwyol arni hi a'i theulu. Mae 'T' bellach mewn llawer gwell sefyllfa yn feddyliol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol. Mae'r cymorth hefyd wedi hybu lles ei theulu'n gyffredinol, ac wedi gwella ei sgiliau magu plant.

Cefnogi ein Gofalwyr Maeth

Mae Gofalwyr Maeth yn darparu gwasanaeth hollbwysig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy roi cartrefi diogel a chefnogol i'r plant hynny sydd arnynt eu hangen fwyaf. Mae'n hanfodol fod Gofalwyr Maeth yn cael digon o gefnogaeth i ddal ati, ac felly ym mis Ionawr 2019 fe ofynnodd i'n Gofalwyr Maeth am sylwadau ynglŷn â'r cymorth a gawsant gan Wasanaeth Maethu Gofal Cymdeithasol Conwy. Cytunodd deugain o Ofalwyr Maeth i leisio'u barn ar faterion fel cyfleoedd hyfforddiant, cyfathrebu â'n tîm o weithwyr proffesiynol, ac ansawdd y gefnogaeth a gawsant.

Beth a ddywedont wrthym?

Mae 55% o'r Gofalwyr Maeth wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor ers dros bum mlynedd, ac mae hanner o'r rheiny wedi bod gyda ni ers mwy na deng mlynedd. Rhaid inni weithio'n galed i sicrhau fod maethu'n dal yn apelio at bobl, a'n bod yn dal i recriwtio Gofalwyr Maeth newydd.

O ran lleoliadau gofal maeth newydd, cafwyd ymateb cadarnhaol ynglŷn â chyfathrebu â'r rhan helaeth o staff y gwasanaeth, y profiad 'paru' lle mae'r plant yn cael eu lleoli yn y cartref mwyaf priodol, a'r eglurder ynglŷn â swyddogaeth y tîm o ran darparu cymorth i Ofalwyr Maeth. Hefyd, dywedodd y rhan fwyaf o ofalwyr maeth eu bod wedi derbyn y dogfennau allweddol, a bod y prosesau cyflwyno'n dda.



Yn fodlon iawn â'r ffordd y caiff lleoliadau posib eu hadnabod, ac ansawdd y wybodaeth a rennir.

Fe ofynnodd i'n gofalwyr maeth am sylwadau ynglŷn â'r berthynas â staff yn y Gwasanaeth Maethu. Ar y cyfan fe gawsom ymateb cadarnhaol ynglŷn ag amrywiaeth o staff, gan gynnwys Gweithwyr Cymdeithasol, y Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal, Swyddog Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, gweithwyr cyswllt ac asiantaethau allanol fel y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc.

Dywedodd 74% o'r ymatebwyr fod y cymorth a gawsant gan y Gwasanaeth Maethu naill ai'n Rhagorol neu'n Dda.

Mae arnom angen gweithio ar ddarparu ffyrdd ystyrlon i Ofalwyr Maeth gwrdd yn anffurfiol, ac ystyried a gaiff ein hyfforddiant ei ddarparu fel y disgwylir. Rhaid hefyd inni sicrhau y caiff Gofalwyr Maeth eu trin fel gweithwyr proffesiynol, a'n bod yn gwrandao ar eu barn.

Beth nesaf?

Rydym wedi comisiynu adolygiad mwy trwyadl o'r cymorth ar gyfer lleoliadau, ac wedi penodi ymgynghorydd annibynnol i ymgynghori â Gofalwyr Maeth, Gweithwyr Cymdeithasol Gofal Plant a'r Tîm Ymyriadau Teuluol; yna byddwn yn cynnwys unrhyw argymhellion yn ein cynllun gweithredu.

Llwybr Dysgu Gofalwyr Maeth

Yn y flwyddyn aeth heibio rydym wedi arfarnu'r cyfleoedd hyfforddiant a dysgu a ddarparwn i'n Gofalwyr Maeth. Ar sail hynny rydym wedi creu'r Llwybr Dysgu Gofalwyr Maeth, sydd wedi arwain at ddatblygiadau mawr o ran cynnig cyfleoedd dysgu i'n Gofalwyr Maeth. Mae prif ddatblygiadau'n cynnwys:

- Blaenoriaethau hyfforddiant i bob Gofalwr Maeth yn y flwyddyn gyntaf, a datblygiad yn parhau yn yr ail flwyddyn a thu hwnt. Byddwn yn darparu mwy o gyfleoedd drwy hyfforddiant wedi'i deilwra.
- Cwrs hyfforddiant ar-lein sy'n cynnwys dros 150 o fodiwlau ar gyfer oedolion a phlant.
- Canolfan sy'n cynnwys dolenni cyswllt at sefydliadau allweddol, teclyn i archebu hyd at ugain o gyrsiau wedi'u targedu, a dolenni cyswllt at grwpiau cymorth.

I gadw golwg ar gyfranogiad yn y Llwybr Dysgu ac unrhyw ymatebion gan ofalwyr maeth, bydd ein Tîm Datblygu'r Gweithlu yn trafod y materion hyn bob tri mis.

Cymorth i Unigolion Cysylltiedig

Mae'r term 'Unigolyn Cysylltiedig' yn disgrifio math penodol o leoliad gofal maeth lle mae perthynas neu ffrind yn gofalu am y plentyn. Sefydlwyd y Grŵp Cymorth Unigolion Cysylltiedig rai blyneddodedd yn ôl er mwyn rhoi cyfle i ofalwyr maeth oedd yn unigolion cysylltiedig gwrdd â'i gilydd yn anffurfiol i rannu eu profiadau. Mae'r grŵp hefyd yn darparu hyfforddiant ffurfiol ac yn trafod pynciau penodol. Rydym yn falch bod y grŵp wedi mynd o nerth i nerth ers ei ffurfio. Yn y flwyddyn aeth heibio fe ddaeth chwech o grwpiau at ei gilydd, gyda hyd at ugain o ofalwyr maeth yn cymryd rhan i gyd.

Mae'r grŵp wedi elwa ar sesiwn ymwybyddiaeth alcohol gan CAIS, a chwrs magu plant. Cafodd gofalwyr gyfle hefyd i fynd i Gynhadledd Gofalwyr Maeth a digwyddiad ymgynghori yng Nghaerdydd.

Rhoddwyd cyfle hefyd i Unigolion Cysylltiedig leisio'u barn am y cymorth a ddarparwyd. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan fod Gofalwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd a thrafod pethau sy'n berthnasol iddynt. Maent wedi dweud yr hoffent gael grwpiau mwy rheolaidd bob mis, a threfnu digwyddiadau arbennig.

Beth nesaf?

Bu twf mawr yn nifer y Gofalwyr sy'n Unigolion Cysylltiedig dros y ddwy flynedd diwethaf. Byddwn yn sefydlu tîm penodol er mwyn sicrhau y darperir cymorth iddynt, gan ganolbwyntio ar ofalu am berthynas neu ffrind.



Safon Ansawdd 6 – Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol, a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion

Beth a ddysgom ni o'r Arolwg Dinasyddion?

Roedd 81% o'r oedolion a gwblhaodd y fersiwn safonol o'r holiadur ac 85% o'r rhai a gwblhaodd y fersiwn hawdd ei ddarllen yn cytuno **mai bod gartref a oedd yn hybu eu lles fwyaf**. Roedd llawer o'r sylwadau ychwanegol yn sôn mor bwysig oedd addasiadau i'w gwneud yn haws mynd o le i le, gan alluogi'r unigolyn i aros gartref yn hwy. Roedd bod yn agos at deulu, ffrindiau a chyfleusterau lleol yn ddymunol hefyd.

Hoffwn fyw'n nes at gludiant cyhoeddus.

Mae trosi'r ystafell ymolchi a gwella'r fynedfa tu allan wedi gweddnwedd fy mywyd yn llwyr.

Mae Tai â Chymorth Ychwanegol yn dda gan mod i'n treulio cymaint o amser mewn cadair olwyn, ac mae'n addas ar gyfer hynny.

Roedd 86% o Ofalwyr yn cytuno mai bod gartref a oedd yn hybu eu lles fwyaf. Roedd y sylwadau ategol gan y garfan hon yn dangos mor niweidiol y gall cartref anaddas fod i rywun sy'n gofalu, a bod cartref pwrpasol neu addasiadau yn medru gwneud byd o wahaniaeth.

Roedd 74% o blant yn cytuno eu bod yn byw mewn cartref lle'r oeddent yn hapus. Roedd y sylwadau ychwanegol yn awgrymu y gallai natur y berthynas bersonol rhwng pawb ar yr aelwyd gael mwy o effaith ar hapusrwydd y plentyn na'r eiddo ei hun, ond gallai arwahanrwydd cymdeithasol fod yn broblem mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd 77% o blant a phobl ifanc eu bod yn hapus gyda'r bobl y maent yn byw â nhw.

Maen nhw'n anhygoel o dda.

Mae fy nheulu'n garedig a gofalgarg.

Gofynnwyd i bobl a oeddent yn derbyn gofal a chymorth yn yr **iaith o'u dewis** ac ymhob carfan roedd dros 90% yn cytuno.

Gofynnwyd i bobl a oedd yn byw mewn cartrefi gofal preswyl ai hwy eu hunain oedd wedi dewis byw yno. Cytunodd 77% o'r oedolion a gwblhaodd y fersiwn safonol o'r holiadur, a rhai ohonynt wedi seilio'u penderfyniad i symud ar gyngor pobl eraill.

Fe fyddwn wedi bod wrth fy modd yn aros gartref, ond gan fy modd yn anabl dyma oedd y peth gorau imi, ac mae gennyf atgofion melys o fy hen gartrefi.

Fe wnaed y penderfyniad ar fy rhan gan fy modd yn rhy sâl ar y pryd. Rwy'n hapus i fod yma rwan. Mae fy iechedd wedi gwella gan fy modd yn y lle iawn ac yn cael gofal da.

Roedd 58% o'r oedolion a gwblhaodd y fersiwn hawdd ei ddarllen o'r holiadur wedi dewis byw mewn cartref gofal preswyl, ond ni chafwyd unrhyw sylwadau ychwanegol i ehangu ar hynny.

Yn 2018-19 rydym wedi bod yn ymchwilio i gyfleoedd i ddarparu llety modern, graenus ac addas i bobl sy'n hŷn, yn fregus, yn anabl neu'n dechrau cynllunio ar gyfer bod yn oedolion annibynnol.

Cefnogi pobl hŷn a'u teuluoedd

Cymorth hyblyg i bobl â dementia a'u teuluoedd

Rydym wedi dechrau cynllunio ar gyfer gwella'r ffordd yr ydym yn darparu gofal a chymorth i bobl â dementia a'u teuluoedd. Dymunwn wella Llys Elian, sef ein canolfan fewnol ar gyfer yr henoed bregus eu meddwl, a'i datblygu'n ganolfan ragoriaeth ar gyfer yr ardal. Byddwn hefyd yn cyflwyno Tîm Cymorth Dementia er mwyn darparu gwasanaeth allgymorth hyblyg sy'n ffurfio 'tîm o amgylch yr unigolyn' ar gyfer pobl â dementia. Bydd y gwasanaeth yn darparu:

- Cymorth i alluogi pobl i gael bywydau da gyda dementia o'r adeg y ceir y diagnosis cyntaf, a hynny yn eu cartrefi eu hunain;

- Y gallu i gyfeirio pobl at wasanaethau eraill a chynnig eiriolaeth i bobl â dementia a'u gofalwyr;
- Y gallu i gyflawni dyletswyddau gofal iechyd wedi'u dirprwyo;
- Man cyswllt allweddol i deuluoedd sydd angen cymorth gyda chymhlethdodau'r system iechyd a gofal;
- Cymorth i gael mynediad at wasanaethau seibiant dros nos ac yn y dydd yn Llys Elian;
- Cymorth a hyfforddiant i deuluoedd a gofalwyr, gan gynnwys hyrwyddo technoleg ddigidol;
- Cysylltiadau gwaith agos â'r tîm Adnoddau Cymunedol a'r amryw dimau ardal;
- Cysylltiadau â'r nyrsys ardal o ran gofal diwedd oes.

Rhaid fydd bod yn hyblyg, a bydd y gweithwyr yn ymateb i anghenion yn hytrach na darparu cymorth yn ôl amserlenni gwaith. Yn unol â **Strategaeth Dementia Llywodraeth Cymru** byddwn yn datblygu a darparu rhaglen hyfforddiant mewn partneriaeth â phobl y mae dementia wedi effeithio arnynt, er mwyn sicrhau bod staff yn meddu ar sgiliau i'w helpu i adnabod pobl â dementia, a theimlo'n hyderus a chymwys i fodloni anghenion pobl wedi iddynt gael diagnosis.

Y Sector Gofal a Llety Priodol

Fis Mehefin 2018, cymeradwywyd **Datganiad Siapio'r Farchnad ar Gartrefi Gofal i Bobl Hŷn yng Ngogledd Cymru**, a oedd yn dangos sut rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu sector cartrefi gofal a fedr ymdopi â'r galw yn y dyfodol a darparu gofal i bobl yn nes at adref. Bydd mwy o bobl dros 85 oed yn byw ar eu pennau'u hunain gydag iechyd gwael, a bydd mwy o bobl dros 65 yn byw â dementia. Felly bydd y galw am leoedd mewn cartrefi gofal yn cynyddu.

Y nod yw gweithio gyda chartrefi gofal er mwyn:

- Cyfrifo'r pris iawn am ofal, gan sicrhau ei fod yn fforddiadwy ond bod y costau wedi'u talu;
- Eu cefnogi i arfer y dulliau gorau o weithio;
- Cefnogi busnesau bach lleol i aros yn gynaliadwy;
- Canfod faint o staff Cymraeg sydd mewn cartrefi gofal;
- Canfod faint o bobl sy'n derbyn gofal yn yr iaith o'u dewis;
- Gwellu'r gofal iechyd a ddarperir mewn cartrefi gofal.



Sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc a phobl ifanc sy'n gadael gofal

Llety i bobl iau

Yn y gorffennol rydym wedi defnyddio Canolfan Marl ar gyfer lleoli pobl anabl. Fe gynigiom gyfle i 'B', unigolyn ifanc yn gadael gofal, i gael profiad o fyw'n annibynnol yn un o fflatiau Canolfan Marl, gan na fedrai'r Gofalwyr Maeth ymrwymo i fod yn 'Lleoliad Pan Fydda i'n Barod'. Nod y lleoliad hwn yw bod 'B' yn magu'r profiad a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer byw heb ofal. Darperir cymorth ar y safle, a bydd rhywun yn cadw golwg ar 'B' o 9am tan 5pm rhag ofn y bydd angen mwy o gefnogaeth arni. Mae 'B' hefyd wedi cael Cynghorydd Personol sy'n goruchwyllo'r drefn o adael gofal a dechrau byw'n annibynnol. Mae'r Cynghorydd Personol wedi llunio Cynllun Llwybr ar ei chyfer ac yn darparu cymorth gydag amrywiaeth o wahanol bethau.

Cafodd 'B' gymorth gyda rheoli cyllideb a deall mor bwysig yw rhoi arian o'r neilltu, gyda chymorth ei Chynghorydd Personol. Ar ôl cael cyfle i ddefnyddio Canolfan Marl fel hyn i hybu ei sgiliau byw'n annibynnol, bydd 'B' yn gwneud cynlluniau ar gyfer symud i'w chartref ei hun. Mae'r Cynghorydd Personol yn darparu cymorth ychwanegol i sicrhau llety parhaol.

Gellid defnyddio'r fflat yn yr un modd ar gyfer y bobl ifanc hynny nad ydynt yn hollol barod eto am lety annibynnol parhaol, ond sy'n methu ag aros â'i Gofalwyr Maeth mwyach.

Beth nesaf?

Mae'r Gwasanaeth Anableddau'n datblygu amryw fathau o lety yn y gymuned, gan gynnwys rhannu bywydau, rhannu llety â chymorth, fflatiau unigol a llety tebyg i Ofal Ychwanegol. Yng Nghanolfan Marl gallwn asesu anghenion unigolion yn well o ran llety a chymorth. Rydym hefyd yn ymchwilio i ddatblygu darpariaeth seibiant

amrywiol i gefnogi gofalcwyr fel y gallant ddal i ddarparu gofal i'w teuluoedd, gan gynnwys seibiannau byr Rhannu Bywydau.

Llwybr Cadarnhaol i Bobl Ifanc

Yn yr adroddiad y llynedd fe soniom ein bod wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc, yn enwedig o ran dewisiadau llety. Dros y deuddeg mis diwethaf bu yno nifer o ddatblygiadau calonogol.

- Datblygwyd hyfforddiant ar gyfer Gofalcwyr Maeth er mwyn hybu gwell dealltwriaeth o'r farchnad dai.
- Estynnwyd yr hyfforddiant i bobl ifanc sy'n gadael gofal, er mwyn hybu eu sgiliau dinasyddiaeth a chefnogi eu tenantiaethau.
- Datblygwyd negeseuon allweddol i bobl ifanc, Gofalcwyr a gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u cyhoeddi ar y wefan Byw yn Annibynnol. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i ledaenu negeseuon allweddol. Mae Gweithiwr Cymdeithasol *Byw yn Annibynnol* hefyd yn ymweld ag ysgolion a sefydliadau addysgol eraill i addysgu myfyrwyr ynglŷn â dewisiadau tai ac agweddau ariannol ar fyw'n annibynnol.
- Buom yn cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd i olrhain cynnydd pobl ifanc mewn gofal o bymtheg oed ymlaen, er mwyn sicrhau eu bod yn dod yn oedolion yn ddi-drafferth, a chael gwared ar y perygl o ddigartrefedd.
- Rydym wedi gweithredu 'Lloches Dros Nos' ac mae Cynllun Tai Lloches â Chymorth ar waith.



Tîm ADTRAC

Mae tîm ADTRAC Gwasanaeth Lles Cymunedol Conwy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed i symud i waith, hyfforddiant neu gyfleoedd gwirfoddoli a chyflawni eu nodau. Hyd yma mae'r tîm wedi cefnogi mwy na chant o bobl ifanc sydd wedi ennill cymwysterau Lefel 3, mynd ymlaen i addysg bellach a chael gwaith am dros 16 awr yr wythnos.

Fe gawsom ymateb da iawn gan rai o'r bobl ifanc hynny'r ydym wedi'u cefnogi:

Diolch am fy helpu i fynd i'r coleg. Doeddwn i ddim yn meddwl y gallwn i wneud hynny, ac roeddwn i'n poeni na fyddwn i'n deall dim byd yn y gwersi.

Astudiaeth Achos

Pan ymunodd 'A' â'r prosiect roedd hi'n anhrefn gartref, ac roedd yn gofalu am ei fam yn answyddogol. Roedd y teulu'n dibynnu ar gyflog ei dad. Un tawel a dihyder oedd 'A'. Mae wedi gweithio mewn swyddi tymhorol yn y gorffennol ac mae 'A' yn cael trafferth â'i leferydd a'i iaith, sy'n golygu fod llunio CV/ffurflenni cais/cyfweliadau yn medru bod yn drech nag ef.

Ar y dechrau fe dreulion ni gryn amser yn gweithio gyda Hawliau Lles a Chanolfan Byd Gwaith fel bod 'A' yn medru hawlio Lwfans Ceisio Gwaith wrth iddo chwilio am swyddi. Roedd 'A' yn awyddus iawn i gael gwaith.

Ymhen ychydig rhoddwyd cymorth i 'A' gysylltu ag asiantaeth gyflogi leol, ac fe gafodd waith ar brawf ar loriau ailgylchu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Cafodd ychydig o drafferthion ar y cychwyn o ran cymdeithasu, ond gyda chymorth fe ddatryswyd hynny cyn diwedd yr wythnos gyntaf.

Mae 'A' wedi bod yn gweithio dros 16 awr yr wythnos ers bron i ddau fis. Mae'n llawn balchder a hyder bellach; yn ogystal â bod yn annibynnol a chael mwy o incwm, mae 'A' wedi gwneud ffrindiau hefyd.



Sut ydym ni'n cyflawni'r hyn a wnawn ni

Recriwtio ein Gweithlu

Er mwyn denu pobl i weithio yn y sector, efallai heb iddynt erioed ystyried gyrfa mewn Gofal Cymdeithasol, rydym wedi cynnal ffeiriau swyddi ar y cyd â chyflogwyr Gofal Cymdeithasol, Coleg Llandrillo, a Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg Conwy. Yn sgil y digwyddiadau hynny fe wnaeth darparwyr Gofal Cymdeithasol recriwtio gweithwyr newydd **yn uniongyrchol** o blith y bobl y cwrddasant â hwy yn y ffeiriau swyddi.

Beth nesaf?

Wedi llwyddo gyda'r dull hwn, bydd ein Tîm Datblygu a Dysgu'r Gweithlu yn cynnal rhaglen reolaidd o ffeiriau swyddi yn y dyfodol.

Gan weithio gyda darparwyr Gofal Cymdeithasol a Choleg Llandrillo, byddwn yn darparu rhaglen profiad gwaith ledled Conwy. Byddwn yn manteisio ar ymgyrch recriwtio genedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru yn lleol er mwyn helpu cyflogwyr gofal cymdeithasol i ddenu pobl i'r maes.



Darparu gwasanaethau yn Gymraeg

Mwy na Geiriau yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol. Amcanion y fframwaith yw:

- Gwellu ansawdd gofal, gan sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar anghenion y defnyddwyr;
- Cynnal safonau proffesiynol;
- Bodloni anghenion iaith y defnyddwyr, yn enwedig felly plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu a phobl â phroblemau iechyd meddwl;
- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a statudol, gan gynnwys Safonau'r Iaith Gymraeg.

Mae'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gynnig a darparu gwasanaethau gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny i'r un safon â gwasanaethau gofal drwy gyfrwng y Saesneg; gelwir hyn yn 'y Cynnig Gweithredol'. Rydym yn gwneud ein gorau glas i ddatblygu'r gwasanaethau a gynigiwn i siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy, ac yn cadw golwg yn gyson ar ein gallu i ddarparu gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r data blynyddol ar ein gweithlu'n dangos fod 42% o'r staff mewnol sy'n gweithio mewn gofal preswyl neu ofal cartref yn medru cyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg. Yn y gweithlu allanol mae'r ffigwr yn is, gyda dim ond 16% yn medru cyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg. Mae ein Gwasanaeth Monitro'n cynnal ymweliadau rheolaidd â chartrefi preswyl ac wedi canfod yn y deuddeg mis diwethaf fod yno 177 o staff Cymraeg ar gyfer 98 o breswylwyr Cymraeg.

Byddwn yn dal i ddarparu hyfforddiant i'n staff ynglŷn â Mwy na Geiriau a'r Cynnig Gweithredol; mae 16 o sesiynau wedi'u comisiynu tan fis Chwefror 2020.

Rheoleiddio ac Arolygu

Bydd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn newid y ffordd y caiff ein gwasanaethau eu harolygu, sut rydym yn gwella ansawdd y gofal a chefnogaeth yr ydym yn ei ddarparu, a'r modd yr ydym yn rheoleiddio'r gweithlu. Bydd yn rhoi ansawdd a gwelliannau gwasanaeth wrth galon rheoleiddio; cryfhau trefniadau diogelu ar gyfer y rhai sydd eu hangen a sicrhau bod gwasanaethau yn darparu gofal a chefnogaeth o ansawdd uchel.

Yn 2018 dechreuodd Gwasanaethau Oedolion ledled Cymru gofrestru rheolwyr yn y sector cartrefi gofal, yn unol â'r rheoliadau o dan y Ddeddf newydd. Rydym wedi cynnal cyfres o fforymau rheolwyr i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Ddeddf. Hefyd yn ddiweddar fe gynhaliom weithdai Cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn helpu'r gweithlu gofal cartref i gofrestru. Rydym wedi sefydlu grŵp polisi ar gyfer y Ddeddf sy'n cwrdd bob mis er mwyn adolygu'r polisiâu sy'n ofynnol o dan y rheoliadau newydd. Gyda'n partneriaid rydym hefyd yn cynnal Grŵp Hyfforddiant Darparwyr Conwy er mwyn hybu datblygiad a dysg y gweithlu gydol y Sector.

Ym maes gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal, mae Arolygiaeth Gofal Cymru wrthi'n cynnal prosiect drwy Gymru i feithrin dealltwriaeth o brofiadau plant, pobl ifanc sy'n gadael gofal a'u Gofalwyr, a pha fath o gymorth sydd ar gael iddynt. Estynnwyd gwahoddiad i Gonwy gymryd rhan yn y prosiect fis Medi 2018, a chynhaliwyd cyfres o

gyfarfodydd gyda phlant, Gofalwyr Maeth a phobl ifanc sy'n gadael gofal. Roedd yr ymateb gan y bobl ifanc sy'n gadael gofal yn galonogol, ac yn dangos mor werthfawr yw eu perthnasau â'u Cynghorwyr Personol a'u Gofalwyr Maeth, ynghyd â'r hwb y mae plant mewn gofal yn ei gael gan grwpiau cymorth a chyfleoedd i gymdeithasu wedi'u trefnu gan y Cyngor. Dywedodd plant â phrofiad o fod mewn gofal i'r arolygydd eu bod yn fodlon ar eu Gweithwyr Cymdeithasol ac yn teimlo fod pobl yn gwrando arnynt. Fe soniont hefyd am feithrin perthynas â phlant eraill yn y gymuned, a sut roedd Gweithwyr Cymdeithasol yn eu cefnogi i wneud hynny.

Ein hadnoddau ariannol a sut rydym ni'n cynllunio at y dyfodol

Er mor heriol yw'r hinsawdd ariannol, rydym yn dal i ddiogelu gwasanaethau uniongyrchol. Ein nod yw darparu'r gwerth gorau am arian, bod yn effeithlon a pheidio â dyblygu gwaith. Bu'n rhaid i'r gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ddod o hyd i £2.4 miliwn mewn arbedion yn 2018-19, ond rydym yn dal i ddarparu'r gwasanaeth gorau y gallwn i'n preswylwyr.

Llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru wedi creu cyfres o ganlyniadau cenedlaethol ac yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd eu penderfyniadau. Mae'r Ddeddf yn sicrhau fod ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn ganolog i benderfyniadau. Yng Nghonwy rydym wedi cynnwys yr amcanion hyn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r saith nod a'r pum ffordd o weithio yn cyfateb i'r wyth o Ganlyniadau Dinasyddion Conwy.

Ceir camau gweithredu yn y Cynllun Corfforaethol sy'n ataliol yn hytrach nag ymatebol, sydd â'r nod o weithio tuag at effaith tymor hirach, wedi cael eu hintegreiddio wrth ystyried sut maent yn cyfrannu at y Saith Nod Llesiant. Mae'r camau gweithredu hyn yn gydweithredol hefyd o ran canolbwyntio ar weithio'n agos gyda chymunedau fel bod ganddynt berchnogaeth dros y Canlyniadau Dinasyddion a'u bod yn rhan o'r gwaith a wneir ar y cyd i'w cyflawni.



Chwaraeodd cymunedau ran bwysig iawn wrth bennu'r blaenoriaethau, a byddant yn dal i gael eu cynnwys. Mae ein themâu trawsbynciol yn cyfeirio at bwysigrwydd asesu ein gweithredoedd a phenderfyniadau pwysig i gael effaith gadarnhaol ar drechu tlodi, cydraddoldeb a hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'r Ddeddf hefyd yn diffinio Datblygu Cynaliadwy fel proses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gwneud i ni ystyried beth rydym ni'n ei wneud, sut rydym yn ei gyflawni a sut rydym ni'n cyfathrebu. Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu drwy fyfyrion ynghylch y modd yr ydym yn defnyddio'r pum ffordd o weithio yn ein Hadolygiadau o Berfformiad y Gwasanaeth bob chwe mis.

Cynllun Ariannu Hyblyg

Nod y Cynllun Ariannu Hyblyg yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai hynny sydd fwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau, a hynny drwy ddulliau ymyrryd yn gynnar ac atal, gan annog pobl i fyfyrion ynghylch eu hunain a chryfhau eu cymhelliant. Y bwriad yw chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag newid er gwell, drwy ddatblygu dulliau blaengar sydd wedi'u dylunio i atal pobl rhag mynd yn fwy diamddiffyn yn y dyfodol. Mae'r rhaglen yn cyfuno deg o ffrydiau cyllid mewn dau 'bot' o grantiau er mwyn cryfhau ein gallu i ddarparu gwasanaethau ataliol, gan ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar gyda'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Mae'r 'pot' cyntaf yn canolbwyntio ar Dai a'r ail ar Blant a Chymunedau.

Rydym wedi adolygu ein trefniadau llywodraethu fel bod modd dod â phawb sy'n ymwneud â grantiau ynghyd, gan gynnwys hwyluso trafodaethau ymysg uwch-reolwyr ynglŷn ag amcanion cyffredin, yn ogystal â'r gwaith manwl y mae'r swyddogion wedi'i wneud yn y grwpiau prosiect.



Rydym wedi dylunio a chadarnhau pum ardal ddarparu, ac wedi dechrau ystyried yn fanwl yr anghenion ymhob un o'r cymunedau hynny. Mae swm enfawr o ddata ac ymchwil ar gael ac rydym wedi'i gasglu ynghyd yn sail ar gyfer adnabod yr angen am y ddarpariaeth. Yn ogystal ag ystyried yr anghenion ymhob ardal, mae'n hanfodol ein bod yn adnabod themâu trawsbynciol y bydd angen eu cydlynu ledled y sir.

O dan y thema *Ymyrryd yn Gynnar ac Atal*, cynhaliwyd astudiaeth ymchwil i arfarnu'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yng Nghonwy er mwyn datblygu'r dull newydd o gynllunio a chomisiynu. Roedd yr astudiaeth honno'n cynnwys:

- Cyfweiliadau â darparwyr prosiectau;
- Hanesion Teulu i nodi'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y prosiectau;
- Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd.

Trosglwyddir yr hyn a ddysgwyd o'r astudiaeth i'n gwaith ymyrryd yn gynnar ac atal yn y Canolfannau Teuluoedd, ac rydym wedi sefydlu pump o dimau Cymorth i Deuluoedd (y Tîm o Amgylch y Teulu a Dechrau'n Deg, gynt).

O dan y thema *Cyflogadwyedd*, mae ein Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr a Chyflogwyr bellach yn hyrwyddo'r holl raglenni cyflogadwyedd yng Nghonwy er mwyn osgoi dyblygu gwaith, ac er mwyn cydlynu gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus/marchnata a deunydd hyrwyddo er mwyn hybu cyflogadwyedd. Crëwyd cysylltiadau ffurfiol rhwng y rhaglen hon a gwaith arall sydd wedi'i ariannu gan gyllid Ewropeaidd.

Beth nesaf?

Yn 2019-20 byddwn yn ail-gomisiynu prosiectau fesul tipyn o dan nifer o themâu, gan gynnwys datblygu chwarae ac agweddau allweddol ar Brofiadau Niweidiol mewn Plentynod, er enghraifft, trais domestig, profedigaeth, camfanteisio'n rhywiol ar blant a chwnsela i deuluoedd. Mae'r datblygiadau hyn yn ategu'r farn gyffredinol fod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod yn her allweddol yn y sir, ac yn rhan bwysig o'r Strategaeth Ymyrryd yn Gynnar ac Atal ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yng Nghonwy. Mae'r dull yn seiliedig ar brofiadau teuluoedd yng Nghonwy sydd wedi adrodd eu hanesion ynglŷn â'r cymorth oedd ar gael iddynt.

Gweithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn y trydydd sector

Rydym yn gweithio'n agos â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy ([CVSC](#)) sy'n darparu hyfforddiant sylfaenol i grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr ar ein rhan. Er enghraifft, maent yn darparu gwasanaeth diogelu, gan gynnig gwybodaeth, adnoddau, cyngor a hyfforddiant i sefydliadau yn y trydydd sector. Cynhaliwyd digwyddiad **Diogelu – Gwneud Pethau'n Iawn, Gyda'n Gilydd** ym mis Tachwedd 2018 yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu, a daeth Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghyd i arddangos y cydweithio oedd yn digwydd a hyrwyddo'r ethos fod diogelu'n fater i bawb, lle bynnag y maent yn gweithio. Roedd 53 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad yn cynrychioli 40 o sefydliadau, gan gynnwys mudiadau gwirfoddol, y Cyngor Sir, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y pynciau dan sylw'n cynnwys:

- Gwaith Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru
- Agwedd y Comisiwn Elusennau at ddiogelu
- Cefnogaeth ar gyfer 'gwneud pethau'n iawn'
- Cymuned Ymarfer ar gyfer Diogelu
- Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr.

Cafwyd ymateb da i'r digwyddiad, ac roedd 83% o'r rhai hynny a gwblhaodd y ffurflenni gwerthuso o'r farn bod y digwyddiad yn rhagorol, ac 8% arall wedi dweud ei fod yn dda. Mae'r sylwadau ategol yn dangos fod llawer o bobl wedi cael budd o'r cyfle i rwydweithio, yn ogystal â'r adnoddau a ddarparwyd a'r cyngor ynglŷn â ble i gael mwy o gymorth a chefnogaeth. Yn bwysicaf oll, roedd mwy na 75% o'r rhai oedd yn bresennol â diddordeb yn y bwriad i sefydlu **Cymuned Ymarfer ar gyfer Diogelu**, a byddwn yn mynd ati i wneud hynny'n awr. Mae Cymunedau Ymarfer yn cynnwys grwpiau o bobl sy'n rhannu pryderon neu frwdfrydedd dros rywbeth maent yn ei wneud, ac yn dysgu sut i'w wneud yn well drwy gwrdd yn rheolaidd i drafod.

Gwasanaethau yn y gymuned

Y llynedd fe soniom am raglen flaenllaw ein Tîm Adnoddau Cymunedol ar gyfer iechyd a lles yng Nghonwy a Sir Ddinbych, sydd â'r weledigaeth o ddarparu gwasanaethau amlasiantaethol cydweithredol, hyblyg ac ymatebol, wedi'u seilio'n lleol. Bydd hwn yn ddull mwy hygyrch o gynnal annibyniaeth gyda thîm cadarn, amlddisgyblaethol yn canolbwyntio ar ofal cleifion ag anghenion cymhleth, a bydd yn sicrhau gwell canlyniadau i bobl yn y gymuned. Bydd y Tîm Adnoddau Cymunedol yn medru darparu gwasanaeth cadarn, proffesiynol a pharhaus i bobl ymhob cymuned, a'u galluogi i fyw mor annibynnol â phosib yn eu cartrefi eu hunain. Bydd y Tîm hefyd yn atal pobl rhag mynd i ysbyty heb fod angen, ac yn cefnogi pobl sy'n dod allan o'r ysbyty.

Sefydlwyd naw o Dimau Adnoddau Cymunedol yn y ddwy sir; ymhob tîm ceir amrywiaeth o weithwyr proffesiynol gan gynnwys meddygon teulu, Gweithwyr Cymdeithasol, Nyrsys Ardal, Therapyddion, Ymwelwyr Iechyd, Nyrsys Ysgol a gweithwyr eraill mewn gwasanaethau plant, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion iechyd a lles eu cymunedau.

Mae'r prosiect yn adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i wneud, ond bydd yn creu llwybrau gofal newydd ac yn newid y modd y datblygir y sefydliad, sy'n golygu y gellir gwneud gwaith amlddisgyblaethol ystyrlon drwy rannu rheolaeth achosion, cydleoli, integreiddio technoleg a gwella cyfathrebu ar draws yr amrywiaeth helaeth o wasanaethau.

Pa gynnydd a wnaethpwyd?

Mae gan bob un o'r naw Tîm Adnoddau Cymunedol swyddog arweiniol dynodedig sy'n sbarduno'r gwaith integreiddio yn ei flaen, yn arwain a chymell y gweithwyr, yn hyrwyddo newid diwylliant a helpu i ysgogi llwyddiant y prosiect drwy arwain a chefnogi'r timau presennol drwy gyfnod o newid cyffrous.

Ffurfiwyd Grwpiau Datblygu Lleol hefyd er mwyn sicrhau fod pob ardal yn datblygu cynllun gweithredu, a hynny ar sail dull sector gyfan. Mae'r Grwpiau Datblygu Lleol yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth helaeth o feysydd gwasanaeth iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn sgil datblygu'r grwpiau hyn gwelwyd gwelliant syfrdanol mewn cysylltiadau proffesiynol a chyfathrebu, sy'n hanfodol wrth geisio sefydlu tîm integredig.

Yng Nghonwy, penodwyd swyddogion cyswllt ar gyfer y pum Tîm Adnoddau Cymunedol i gefnogi'r datblygiadau o ran gweithio integredig. Mae rhai o'r adnoddau presennol wedi'u trosglwyddo i'r Timau Adnoddau Cymunedol, sef Gweithredwyr Un Pwynt Mynediad, Swyddogion Cymorth Busnes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Swyddogion Hawliau Lles.

Mae rhai o'r timau'n cynnal cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol yn rheolaidd, yn cael cyfarfodydd bach bob dydd ac wedi datblygu ffyrdd newydd o weithio, ac o ganlyniad i hynny maent yn fwy effeithlon.

Ffurfiwyd is-grwpiau technegol i roi arweiniad a chefnogaeth yn y broses o newid y sefydliad. Mae'r is-grwpiau hynny'n hwyluso a gweithredu'r newidiadau angenrheidiol er mwyn gweithio'n integredig, gan gynnwys seilwaith, TG, prosesau a chyfathrebu. Ceir cynrychiolwyr technegol o'r tri sefydliad yn y bartneriaeth sy'n cynnig datrysiadau pan gyfyd problemau.

Bwriedir cynnal cynhadledd ranbarthol fis Gorffennaf 2019 fel y gall pob Tîm Adnoddau Cymunedol ddod ynghyd i rannu gwybodaeth ac arferion da.



Sut rydym yn comisiynu gwasanaethau

Yn yr adroddiad y llynedd fe soniom am ein strategaeth gomisiynu, a oedd yn nodi sut byddai Conwy'n cydweithio gyda dinasyddion, staff, cymunedau, gwirfoddolwyr a phartneriaid i gomisiynu gwasanaethau sy'n darparu canlyniadau, gwell iechyd a lles, gweithlu y gofali amdanynt a gwell gwerth am arian. Y nod oedd darparu'r hyn sy'n bwysig i ddinasyddion a rhoi dewis a rheolaeth iddynt dros eu bywydau, yn ogystal â chyflawni ein gwledigaeth:

“Cydweithio gyda'n cymunedau i alluogi pawb i gael y gorau o fywyd”

Roedd gennym wyth o amcanion strategol:



Sut hwyl gawsom ni arni?

Gwnaethpwyd cynnydd wrth weithredu'r strategaeth gomisiynu, a bydd adroddiad ar hynny'n mynd gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Ebrill fel sy'n digwydd bob blwyddyn.

Bob tri mis byddwn yn cwrdd â'n darparwyr annibynnol ar y cyd â'n cydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Diben y cyfarfodydd hynny yw meithrin gwell perthynas, rhoi cyfle i ddarparwyr leisio'u barn, a rhannu gwybodaeth. Cynhelir pob cyfarfod ar thema benodol, ac mae'r pynciau trafod hyd yma wedi cynnwys:

- Gwersi a ddysgwyd a gwelliant parhaus (y broses o gau cartref gofal, polisi uwchgyfeirio pryderon, diogelu ac yn y blaen);
- Pennu ffioedd;
- Cydymffurfiaeth a rheoleiddio (ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, iechyd a diogelwch, diogelwch bwyd, rheoliadau'r gweithlu).

Daeth nifer dda o bobl i'r sesiynau a gweld gwerth ynddynt, ac roeddent yn sicrhau ein bod yn meithrin perthynas agos â'n darparwyr.

Beth nesaf?

Un o'r pethau mwyaf inni yn 2019/20 fydd hwyluso a sicrhau gwerth cymdeithasol drwy ein gweithgarwch comisiynu. Bydd hynny'n golygu ein bod yn hyrwyddo datblygiad sefydliadau dielw i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Bydd y rheiny'n cynnwys mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd, gwasanaethau wedi'u harwain gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector. Byddwn yn canfod y nifer o sefydliadau yn y sir sy'n rhoi gwerth cymdeithasol drwy ddarparu cymorth iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn dadansoddi sut rydym yn comisiynu eu gwasanaethau, gan ystyried yn benodol sut allwn annog datblygiad dulliau newydd o ddarparu gwerth cymdeithasol a dulliau blaengar o ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol.

Cyfranogi

Yn y flwyddyn aeth heibio fe gynhaliom nifer o ymgynghoriadau ynghylch amrywiaeth o bynciau ar ran y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Mae'r ymateb a'r wybodaeth a gawn ni yn ein helpu i unio ein gwasanaethau:

- Cynnig Deddfwriaethol i Ddileu Cosb Resymol fel Amddiffyniad – Ymateb Adran Gofal Cymdeithasol Conwy;
- Drafft Ymgynghori o'r Bil Awtistiaeth (Cymru) – Ymateb Adran Gofal Cymdeithasol Conwy;
- Diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 a'r Fframwaith Rheoleiddio newydd ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu;
- Safonau Cenedlaethol Drafft ar gyfer Plant yn y System Cyfiawnder Ieuenctid 2019;
- Arolygiaeth Gofal Cymru – Cwestiynau – Ymateb i Ymgynghoriad Arolygu Cafcass Cymru;
- Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal – Eithrio rhag Treth y Cyngor – ymateb i'r ymgynghoriad gan Grŵp Siapio'r Dyfodol;
- Ymgynghoriad ynghylch Rheoliadau Mabwysiadu 2019;
- Addasiadau Tai – Safonau'r Gwasanaeth – ymateb i'r ymgynghoriad.

Rydym hefyd wedi medru cynnwys pobl wrth ddatblygu ein Canolfannau Teuluoedd a'r Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd ar wahanol lefelau. Datblygwyd y dull ar sail profiadau teuluoedd a'r ymchwil ansoddol a wnaethpwyd ar y cyd â hwy. Mae Grŵp Cynghori'r Prosiect yn cynnwys rhieni a phobl ifanc sy'n gweithio ochr yn ochr â'r Rheolwr Prosiect. Cynhaliwyd ymgynghoriadau mewn ysgolion a chymunedau, grwpiau ffocws a digwyddiadau i randdeiliaid. Bydd hynny'n parhau wrth inni weithio i ddatblygu pob maes.

Fframwaith Mesur Perfformiad

Yn y rhan hon rhoddir manylion o'n perfformiad yn ôl y dangosyddion isod. Mae'n ofynnol inni gyflwyno adroddiad ar ein perfformiad i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Mae'r dangosyddion perfformiad hyn yn ffordd arall o fesur i ba raddau rydym yn cyflawni pob Safon Ansawdd.

Safon Ansawdd 1 - Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y dymuna pobl eu cyflawni		
Dangosydd Perfformiad	2017-2018	2018-2019
Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi a chael pecyn gofal llai dwys (nac o'r blaen) 6 mis yn ddiweddarach (<i>PMA20a</i>)	9.85%	9.41%
% yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach (<i>PMA20b</i>)	71.52%	73.70%
Canran yr oedolion a gafodd gyngor a chefnogaeth gan y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth oedd heb gysylltu â'r gwasanaeth eto o fewn 6 mis (<i>PMA23</i>)	81.25%	90.79%
Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn y graddfeydd amser statudol (<i>PMC24</i>)	100.00%	100.00%
Safon Ansawdd 2 – Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol		
Y gyfradd o oedi mewn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn (<i>PMA19</i>)	0.33	0.66
Hyd o amser ar gyfartaledd y caiff pobl hŷn (65 oed a hŷn) eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl (<i>PMA21</i>)	642.24 diwrnod	703.34 diwrnod
Oedran cyfartalog oedolion sydd yn mynd i gartrefi gofal preswyl (<i>PMA22</i>)	81.09	85.09
Canran y plant sydd yn gweld deintydd cofrestredig o fewn tri mis ar ôl derbyn gofal (<i>PMC30</i>)	78.00%	94.12%
Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a gofrestrwyd â meddyg teulu o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau'r lleoliad (<i>PMC31</i>)	100.00%	98.77%
Safon Ansawdd 3 – Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed		
Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod (<i>PMA18</i>)	27.63%	81.08%
Canran ailgofrestru plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant y Cyngor (<i>PMC27</i>)	10.71%	7.55%
Hyd yr amser ar gyfartaledd ar gyfer yr holl blant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (<i>PMC28</i>)	216.31 diwrnod	213.43 diwrnod
Safon Ansawdd 4 – Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan yn y gymdeithas		
Canran y plant sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 4 (<i>PMC29a</i>)	55.56%	54.84%
Canran y plant sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 4 (<i>PMC29b</i>)	11.63%	4.88%
Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol unwaith neu fwy, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth (<i>PMC32</i>)	1.50%	5.37%
Safon Ansawdd 5 – Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol diogel		
Canran y plant sy'n cael eu cefnogi i barhau i fyw gyda'u teulu ar 31 Mawrth (<i>PMC25</i>)	70.51%	64.86%* Ffigurau dros dro
Canran y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref o ofal yn ystod y flwyddyn (<i>PMC26</i>)	8.84%	9.47%* Ffigurau dros dro
Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn (<i>PMC33</i>)	10.38%	7.69%* Ffigurau dros dro
Safon Ansawdd 6 – Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol, a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion		
Canran yr holl bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal (<i>PMC34a</i>)	43.50%	62.86%
Canran yr holl bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal (<i>PMC34b</i>)	26.30%	37.50%
Canran yr holl bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn (<i>PMC35</i>)	4.70%	12.23%

Edrych ymlaen at 2019-20 a thu hwnt

Rhaglen Integreiddio'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg

Sefydlwyd y rhaglen Integreiddio Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg er mwyn dod â staff ynghyd i weithredu newidiadau i integreiddio'r gwasanaeth a sicrhau ei gynnaladwyedd. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddatblygiadau o ran swyddogaethau cymorth busnes y gwasanaethau yn ogystal â'r ddarpariaeth ar lawr gwlad, gyda'r nod o sicrhau gwell canlyniadau i blant, oedolion a theuluoedd.

Yr hyn a wnaethpwyd hyd yma

Mae'r staff wedi cymryd rhan mewn diwrnodau creu gweledigaeth, gan lunio Gweledigaeth newydd y Gwasanaeth – "Cydwethio gyda'n cymunedau i alluogi pawb i gael y gorau o fywyd".

Cymeradwywyd Chwech o Ganlyniadau a Champau Gweithredu ar y Cyd i'r Gwasanaeth, sy'n canolbwyntio ar sicrhau gwell canlyniadau i blant, pobl ifanc ac oedolion.

Mae staff wedi llunio cynllun cyfathrebu'r gwasanaeth. Roedd hwn yn ymarfer gwerth chweil, a oedd galluogi dod o hyd i arferion da ac atebion mewn meysydd lle gellir gwella sut rydym yn cyfathrebu.

Mae'r Prosiect Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn newid sut darperir gwasanaethau Atal ac Ymyrryd yn Gynnar ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghonwy. Sefydlwyd pump o Dimau Cefnogi Teuluoedd ledled y sir, sy'n cynnig gwasanaethau cefnogaeth ac ataliaeth gynnar i deuluoedd. Mae cysylltiadau gyda thimau a gwasanaethau eraill i sefydlu cefnogaeth amlasiantaeth ehangach yn cael ei ddatblygu, megis cam-drin domestig, cyngor budd-daliadau, cefnogaeth ieuencid, gwasanaethau anableddau.

Mae'r Prosiect Cynhwysiad Cymdeithasol yng Nghonwy yn cyflwyno argymhellion i ddatblygu'r ddarpariaeth addysg amgen i bobl ifanc yng Nghonwy. Yn 2019 mae'r prosiect yn edrych ar wneud y gorau o ganolfannau cynhwysiad prif ffrwd mewn ysgolion, ein hunedau addysg amgen arbenigol oddi ar y safle (Unedau Cyfeirio Disgyblion) a gwasanaethau cefnogi eraill, gan alluogi dysgwyr sydd angen cefnogaeth i ymgymryd â dysgu'n fwy effeithiol.

Prosiect Datblygu'r Gwasanaeth Plant

Newydd ddechrau yn 2019 y mae'r Prosiect Gwasanaethau Plant, a bydd hwn yn cyflwyno dulliau newydd o weithio a darparu cymorth drwy'r gwasanaeth. Y nod yw rhwystro'r cynnydd diweddar ym mhoblogaeth Plant sy'n Derbyn Gofal, gan ymateb yn rhagweithiol i'r argyfwng gofal sydd wedi'i nodi ledled Cymru a'r Deyrnas Gyfunol er mwyn cyflawni canlyniadau gwell i blant a theuluoedd. Penodwyd rheolwr profiadol a gweithgar i weithredu'r prosiect am gyfnod o ddwy flynedd. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau i benodi swyddogion arweiniol i'r amryw ffrydiau gwaith a chytuno ar y camau nesaf. Byddwn yn ystyried:



- Ein gweithlu a'n hymarfer;
- Gostwng nifer plant sy'n derbyn gofal
- Ein gallu i ddad-uwchgyfeirio plant gydag anghenion cymhleth;
- Lleoliadau plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig felly o ran digonolrwydd, ansawdd, sefydlogrwydd a'r gefnogaeth.

Mae'r gwasanaeth yn elwa ar wasanaethau cymorth busnes gwerthfawr, sy'n arbenigo mewn meysydd fel hyfforddiant, rheoli perfformiad, systemau rheoli gwybodaeth a chymorth gweinyddol. Mae'r staff bron â gorffen adolygiad sy'n bwrw golwg ar sut ellid gwneud y defnydd gorau o gymorth busnes gydol y gwasanaeth.

Bydd y staff yn cael cyfle yn 2019 i fyfyrio ynghylch y cynnydd hyd yma, ac ystyried y blaenoriaethau ar gyfer rhaglen integreiddio'r gwasanaethau yn y tymor canolig a'r tymor hir.


Cymru Iachach

Yn dilyn **Adolygiad Seneddol Llywodraeth Cymru** ynglŷn â dyfodol hirdymor lechyd a Gofal Cymdeithasol, 'Cymru Iachach', lluniwyd cynllun sy'n cyflwyno'r weledigaeth o ran darparu gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Bydd Conwy'n gweithio ochr yn ochr â'n partneriaid yn Sir Ddinbych wrth weithredu nodau cyffredinol y cynllun:

- Trefnu gofal o amgylch yr unigolyn a'r teulu, mor agos â phosib at adref;

- Sicrhau fod gweithwyr iechyd a gofal, gwirfoddolwyr a dinasyddion i gyd yn cydweithio i gyflawni canlyniadau pendant, gwella iechyd a lles, sicrhau gofal i'r gweithlu a gwell gwerth am arian;
- Datblygu dulliau di-dor o weithio rhwng sefydliadau;
- Rhoi rheolaeth i bobl a chymunedau drwy roi swyddogaeth gyfartal iddynt wrth gynllunio a darparu gwasanaethau;
- Buddsoddi yn ein staff drwy hyfforddi a datblygu er mwyn rhoi iddynt yr arfau angenrheidiol i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol.

Wrth roi mwy o bwyslais ar rymuso pobl i gynnal eu gwybodaeth, eu hannibyniaeth a'u hiechyd, hyderir yn y deng mlynedd nesaf y gwelwn ostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael gofal a thriniaeth mewn ysbytai, a hynny yn sgil cynnydd mewn gweithgareddau i hybu iechyd, lles ac ataliaeth, yn ogystal â darparu mwy o wasanaethau gofal yn lleol.



Byddwn yn sôn am gynnydd Conwy wrth gyflawni'r cynllun Cymru Iachach yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau pwysig

Adroddiadau Blynyddol y Cyfarwyddwr (blynyddoedd blaenorol)

<https://adroddiadblynyddolgwasanaethaucymdeithasolconwy.org.uk/>

Cynllun Corfforaethol 2017-2022

<https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Strategies-Plans-and-Policies/Corporate-Plan/Corporate-Plan-2017-2022.aspx>

Sut rydym yn comisiynu gwasanaethau

<https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Policies-Plans-and-Reports/How-we-Commission-Services.aspx>

Arolygiaeth Gofal Cymru

<https://arolygiaethgofal.cymru>

Gofal Cymdeithasol Cymru

<https://gofalcymdeithasol.cymru/>

Mesur Llesiant

<https://gweddi.gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/?skip=1&lang=cy>

Canolfannau Teuluoedd Conwy

<https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Children-and-families/Conwy-Family-Centres/Conwy-Family-Centres.aspx>

Cyngor Ieuenctid Conwy

<https://en-gb.facebook.com/CyngorIeuenctidConwyYouthCouncil/>

Y Polisi Diogelu Corfforaethol

<https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Im-worried-about-somebody/Corporate-Safeguarding-Policy.aspx>

Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/>

Rhaglen Ariannu Hyblyg

<https://llyw.cymru/plant-theuluoedd>

